



OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 Rhif 1478 (Cy. 380)

TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD, CYMRU

Gorchymyn Parth Arddangos Morlais 2021

Gwnaed

17 Rhagfyr 2021

Yn dod i rym

22 Rhagfyr 2021

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2021 No. 1478 (W. 380)

TRANSPORT AND WORKS, WALES

The Morlais Demonstration Zone Order 2021

Made

17 December 2021

Coming into force

22 December 2021



a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0333 202 5077

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

Fax orders: 0333 202 5080

E-mail: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0333 202 5077

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-39212-8



9 780348 392128

£18.95



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2021 Rhif 1478 (Cy. 380)

2021 No. 1478 (W. 380)

**TRAFNIDIAETH A
GWEITHFEYDD, CYMRU**

**TRANSPORT AND WORKS,
WALES**

**Gorchymyn Parth Arddangos
Morlais 2021**

**The Morlais Demonstration Zone
Order 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw, ailberu a datgomisiynu gorsaf cynhyrchu trydan llanwol a gweithfeydd ategol oddi ar arfordir Ynys Môn yn ardal Abraham's Bosom ac ar gyfer cysylltu'r gweithfeydd hynny drwy is-orsafoedd ar y tir â'r grid trydan.

Gellir edrych ar gopi o'r datganiad amgylcheddol, y cyfeirlyfr, planiau'r gweithfeydd alltraeth, planiau'r tir, planiau'r tir a'r trawsluniau a ragnodir gan reol 12 o Reolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006 (OS 2006/1466) ac a ardystir yn unol ag erthygl 46 o'r Gorchymyn hwn yn swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

The Order provides for the construction, operation, maintenance, repowering and decommissioning of a tidal electricity generating station and ancillary works off the coast of Anglesey in the area of Abraham's Bosom and for the connection of those works via onshore substations to the electricity grid.

A copy of the environmental statement, book of reference, offshore works plans, onshore plans, onshore plans and sections prescribed by rule 12 of the Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) Rules 2006 (S.I. 2006/1466) and certified in accordance with article 46 of this Order, may be inspected at the offices of Isle of Anglesey County Council, Council offices, Llangefni, Anglesey, LL77 7TW.

2021 Rhif 1478 (Cy. 380)

**TRAFNIDIAETH A
GWEITHFEYDD, CYMRU**

**Gorchymyn Parth Arddangos
Morlais 2021**

Gwnaed 17 Rhagfyr 2021
Yn dod i rym 22 Rhagfyr 2021

2021 No. 1478 (W. 380)

**TRANSPORT AND WORKS,
WALES**

**The Morlais Demonstration Zone
Order 2021**

Made 17 December 2021
Coming into force 22 December 2021

CYNNWYS

**RHAN 1
Rhagarweiniol**

1. Enwi a Chychwyn
2. Dehongli

RHAN 2

**Darpariaethau ynghylch Gweithfeydd
*Prifbwerau***

3. Pŵer i adeiladu, cynnal a chadw, ailbweru a datgomisiynu gweithfeydd
4. Pŵer i wyro
5. Pŵer i Weithredu
6. Budd y Gorchymyn

Strydoedd

Cymhwyso Deddf 1991

7. Pŵer i wneud gweithfeydd stryd
8. Cau strydoedd dros dro
9. Mynediad i weithfeydd
10. Cytundebau ag awdurdodau strydoedd
11. Defnyddio ffyrdd preifat ar gyfer adeiladu

Pwerau atodol

12. Gollwng dŵr
13. Gweithfeydd diogelu ar adeiladau
14. Pŵer i arolygu ac ymchwilio i dir
15. Arbediad Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

CONTENTS

**PART 1
Preliminary**

1. Citation and Commencement
2. Interpretation

PART 2

**Works Provisions
*Principal powers***

3. Power to construct maintain, repower and decommission works
4. Power to deviate
5. Power to Operate
6. Benefit of the Order

Streets

Application of the 1991 Act

7. Power to execute street works
8. Temporary stopping up of streets
9. Access to works
10. Agreements with street authorities
11. Use of private roads for construction

Supplemental powers

12. Discharge of water
13. Protective works to buildings
14. Power to survey and investigate land
15. Saving for Marine and Coastal Access Act 2009

16. Pŵer i garthu
17. Darpariaeth rhag perygl i fordwyo
18. Atal gweithfeydd llanwol a adawyd neu a ddinistriwyd
19. Arolwg o weithfeydd llanwol
20. Goleuadau ar weithfeydd llanwol
21. Diogelwch mordwyo

RHAN 3

Caffael a Meddiannu Tir

Pwerau caffael

22. Pŵer i gaffael tir
23. Pŵer i gaffael hawliau newydd a gosod cyfamodau cyfyngol
24. Cymhwyso Rhan 1 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965
25. Cymhwyso Deddf 1981
26. Pŵer i Gaffael Is-bridd yn Unig
27. Hawliau o dan neu dros strydoedd

Meddiannu Tir Dros Dro

28. Defnyddio tir dros dro ar gyfer adeiladu gweithfeydd
29. Defnyddio tir dros dro ar gyfer cynnal a chadw gweithfeydd
30. Ymgorffori'r cod mwynau
31. Diogelu hawliau i bysgota

Digolledu

32. Diystyru buddiannau a gwelliannau penodol
33. Gwrthgyfrif ar gyfer ychwanegiad yng ngwerth tir a gadwyd

Atodol

34. Pŵer i drechu hawddfrentiau a hawliau eraill
35. Hawliau preifat dros dir
36. Terfyn amser ar gyfer arfer pwerau caffael

RHAN 4

Amrywiol a Chyffredinol

37. Datgymhwyso darpariaethau deddfwriaethol
38. Amddiffyniad i achosion cyfreithiol mewn cysylltiad â niwsans statudol
39. Caniatâd cynllunio a materion atodol
40. Pŵer i docio coed sy'n gorchongian dros y gweithfeydd awdurdodedig a gwaredu gwrychoedd
41. Cymhwyso cyfraith landlord a thenant
42. Rhwystro adeiladu gweithfeydd awdurdodedig

16. Power to dredge
17. Provision against danger to navigation
18. Abatement of tidal works abandoned or destroyed
19. Survey of tidal works
20. Lights on tidal works
21. Safety of navigation

PART 3

Acquisition and Possession of Land

Powers of acquisition

22. Power to acquire land
23. Power to acquire new rights and impose restrictive covenants
24. Application of Part 1 of the Compulsory Purchase Act 1965
25. Application of the 1981 Act
26. Power to Acquire Subsoil Only
27. Rights under or over streets

Temporary Possession of Land

28. Temporary use of land for construction of works
29. Temporary use of land for maintenance of works
30. Incorporation of the mineral code
31. Protection of rights to fish

Compensation

32. Disregard of certain interests and improvements
33. Set-off for enhancement in value of retained land

Supplementary

34. Power to override easements and other rights
35. Private rights over land
36. Time limit for exercise of powers of acquisition

PART 4

Miscellaneous and General

37. Disapplication of legislative provisions
38. Defence to proceedings in respect of statutory nuisance
39. Planning permission and supplementary matters
40. Power to lop trees overhanging the authorised works and removal of hedgerows
41. Application of landlord and tenant law
42. Obstruction of construction of authorised works

- | | |
|---|--|
| <p>43. Parthau diogelwch ar gyfer mordwyo, treillrwydo ac angori</p> <p>44. Ymgymrwyr statudol a darpariaethau diogelu etc</p> <p>45. Diogelu buddiannau</p> <p>46. Ardystio planiau etc</p> <p>47. Cyflwyno hysbysiadau</p> <p>48. Dim adennill dwbl</p> <p>49. Cymrodeddu</p> <p>50. Arbediad ar gyfer Trinity House</p> <p>51. Deddf Cynllunio Cymdogaeth 2017</p> | <p>43. Safety zones for navigation, trawling and anchoring</p> <p>44. Statutory undertakers and protective provisions etc</p> <p>45. Protection of interests</p> <p>46. Certification of plans etc</p> <p>47. Service of notices</p> <p>48. No double recovery</p> <p>49. Arbitration</p> <p>50. Saving for Trinity House</p> <p>51. The Neighbourhood Planning Act 2017</p> |
|---|--|

ATODLEN 1

- RHAN 1 — Gweithfeydd Awdurdodedig
- RHAN 2 — Gweithfeydd Pellach
- RHAN 3 — Ardal ar gyfer Gweithfeydd Llanwol
- RHAN 4 — Dogfennau i'w cyflwyno ac i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru

ATODLEN 2 — Tir ychwanegol y gellir ei gaffael neu ei ddefnyddio

ATODLEN 3 — Strydoedd sy'n Destun Gweithfeydd Stryd

ATODLEN 4 — Strydoedd i'w Cau Dros Dro

ATODLEN 5 — Mynediad i Weithfeydd

ATODLEN 6

- RHAN 1 — Tir na ellir ond caffael hawliau newydd ynddo
- RHAN 2 — Tir y gellir gosod cyfamodau cyfyngol drosto

ATODLEN 7 — Addasu Deddfiadau Digolledu a Phrynu Gorfodol ar gyfer Creu Hawliau Newydd a Gosod Cyfamodau Cyfyngol

ATODLEN 8 — Tir na ellir ond caffael Is-bridd sydd dros 9 metr o dan ei wyneb

SCHEDULE 1

PART 1 — Authorised Works

PART 2 — Further Works

PART 3 — Area for Tidal Works

PART 4 — Documents to be submitted and approved by the Welsh Ministers

SCHEDULE 2 — Additional land which may be acquired or used

SCHEDULE 3 — Streets Subject to Street Works

SCHEDULE 4 — Streets to be Temporarily Stopped Up

SCHEDULE 5 — Access to Works

SCHEDULE 6

PART 1 — Land in which only new rights may be acquired

PART 2 — Land over which restrictive covenants may be imposed

SCHEDULE 7 — Modification of Compensation and Compulsory Purchase Enactments for Creation of New Rights and the Imposition of Restrictive Covenants

SCHEDULE 8 — Land of which only Subsoil more than 9 metres beneath surface may be Acquired

ATODLEN 9	— Tir y gellir ei Feddiannu Dros Dro
ATODLEN 10	— Darpariaethau sy'n ymwneud ag Ymgymrwyr Statudol etc
ATODLEN 11	— Darpariaethau Diogelu
RHAN 1	— Diogelu ymgymrwyr trydan, nwy, dŵr a charthffosiaeth
RHAN 2	— Diogelu Network Rail Infrastructure Limited
RHAN 3	— Diogelu gweithredwyr rhwydweithiau'r cod cyfathrebu electronig

SCHEDULE 9	— Land of which Temporary Possession may be taken
SCHEDULE 10	— Provisions relating to Statutory Undertakers etc
SCHEDULE 11	— Protective Provisions
PART 1	— Protection of electricity, gas, water and sewerage undertakers
PART 2	— Protection of Network Rail Infrastructure Limited
PART 3	— Protection of operators of electronic communications code networks

Mae cais wedi cael ei wneud i Weinidogion Cymru yn unol â Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006(1) am Orchymyn o dan adrannau 3 a 5 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992(2) ("Ddeddf 1992").

Parodd Gweinidogion Cymru i ymchwiliad gael ei gynnal at ddibenion y cais o dan adran 11 o Ddeddf 1992.

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau a wnaed ac nas tynnwyd yn eu hôl ac adroddiad y person a gynhaliodd yr ymchwiliad, wedi penderfynu gwneud Gorchymyn sy'n gweithredu'r cynigion sy'n cael eu cynnwys yn y cais gydag addasiadau sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn gwneud newid sylweddol yn y cynigion.

Mae Gweinidogion Cymru ar ôl ystyried sylwadau a wnaed yn briodol o dan adran 13 o Ddeddf 1992, wedi penderfynu gwneud y Gorchymyn y gwnaed cais amdano gydag addasiadau. Cyhoeddwyd hysbysiad o benderfyniad Gweinidogion Cymru yn y London Gazette ar 17 Rhagfyr 2021.

An application has been made to the Welsh Ministers in accordance with the Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) Rules 2006(1) for an Order under sections 3 and 5 of the Transport and Works Act 1992(2) ("the 1992 Act").

The Welsh Ministers caused an inquiry to be held for the purposes of the application under section 11 of the 1992 Act.

The Welsh Ministers, having considered the objections made and not withdrawn and the report of the person who held the inquiry have determined to make an Order giving effect to proposals comprised in the application with modifications which in the opinion of the Welsh Ministers make a substantial change to the proposals.

The Welsh Ministers having considered representations duly made under section 13 of the 1992 Act, has determined to make the Order applied for with modifications. Notice of the Welsh Ministers determination was published in the London Gazette on 17 December 2021.

(1) O.S. 2006/1466, a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/439, O.S. 2011/556, O.S. 2011/2085, O.S. 2012/147, O.S. 2012/1658, O.S. 2012/2590 ac O.S. 2013/755.

(2) 1992 p. 42; diwygiwyd adran 3 gan baragraffau 51 a 53 o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29), diwygiwyd adran 5 gan O.S. 2012/1659.

(1) S.I. 2006/1466, amended by S.I. 2010/439, S.I. 2011/556, S.I. 2011/2085, S.I. 2012/147, S.I. 2012/1658, S.I. 2012/2590 and S.I. 2013/755.

(2) 1992 c. 42; section 3 was amended by paragraphs 51 and 53 of Schedule 2 to the Planning Act 2008 (c. 29), section 5 was amended by S.I. 2012/1659.

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 3 a 5 o Ddeddf 1992, a pharagraffau 2, 3, 4, 5, 7, 8, 11, 15, 16 a 17 o Atodlen 1 i'r ddeddf honno, sydd bellach yn arferadwy ganddynt(1) yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi a Chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Parth Arddangos Morlais 2021 a daw i rym ar 22 Rhagfyr 2021.

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “Deddf 1961” yw Deddf Digollediad Tir 1961(2);

ystyr “Deddf 1965” yw Deddf Prynu Gorfodol 1965(3);

ystyr “Deddf 1980” yw Deddf Priffyrdd 1980(4);

ystyr “Deddf 1981” yw Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981(5);

ystyr “Deddf 1990” yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(6);

ystyr “Deddf 1991” yw Deddf Ffyrdd Newydd a Gweithfeydd Stryd 1991(7);

ystyr “Deddf 2004” yw Deddf Ynni 2004(8);

ystyr “Deddf 2009” yw Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(9);

ystyr “Rheoliadau 2007” yw Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Parthau

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 3 and 5 of, and paragraphs 2, 3, 4, 5, 7, 8, 11, 15, 16 and 17 of Schedule 1 to, the 1992 Act, now exercisable by them(1) make the following Order.

PART 1

Preliminary

Citation and Commencement

1. This Order may be cited as the Morlais Demonstration Zone Order 2021 and comes into force on 22 December 2021.

Interpretation

2.—(1) In this Order—

“the 1961 Act” means the Land Compensation Act 1961(2);

“the 1965 Act” means the Compulsory Purchase Act 1965(3);

“the 1980 Act” means the Highways Act 1980(4);

“the 1981 Act” means the Compulsory Purchase (Vesting Declarations) Act 1981(5);

“the 1990 Act” means the Town and Country Planning Act 1990(6);

“the 1991 Act” means the New Roads and Street Works Act 1991(7);

“the 2004 Act” means the Energy Act 2004(8);

“the 2009 Act” means the Marine and Coastal Access Act 2009(9);

“the 2007 Regulations” means the Electricity (Offshore Generating Stations) (Safety Zones)

(1) Mae pwerau o dan adrannau 3 a 5 o Ddeddf 1992, a pharagraffau 3, 4, 5, 7, 8, 11, 15, 16 a 17 o Atodlen 1 i'r ddeddf honno bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru. Cawsant eu breinio'n flaenorol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), fe'u trosglwyddwyd i Weiniogion Cymru.

(2) 1961 p. 33.
(3) 1965 p. 56
(4) 1980 p. 66.
(5) 1981 p. 66.
(6) 1990 p. 8.
(7) 1991 p. 22.
(8) 2004 p. 20.
(9) 2009 p. 23.

(1) Powers under sections 3 and 5 of, and paragraphs 3, 4, 5, 7, 8, 11, 15, 16, and 17 of Schedule 1 to the 1992 Act are now vested in the Welsh Ministers so far as they are exercisable in relation to Wales. They were previously vested in the National Assembly for Wales by virtue of article 2 and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). By virtue of paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32), they were transferred to the Welsh Ministers.

(2) 1961 c. 33.
(3) 1965 c. 56
(4) 1980 c. 66.
(5) 1981 c. 66.
(6) 1990 c. 8.
(7) 1991 c. 22.
(8) 2004 c. 20.
(9) 2009 c. 23.

Diogelwch) (Gweithdrefnau Gwneud Cais a Rheoli Mynediad) 2007(1);

mae “cyfeiriad” yn cynnwys unrhyw nifer o gyfeiriadau a ddefnyddir at ddibenion darlledu electronig;

ystyr “ardal araeau” yw'r rhan honno o derfynau Gorchymyn ar y môr a sefydlwyd fel ardal yr araeau yn Rhan 3 o Atodlen 1 y caniateir adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw, ailbweru a datgomisiynu Gwaith Rhif 1 oddi mewn iddi;

ystyr “gweithfeydd awdurdodedig” yw'r gweithfeydd rhestredig a nodwyd yn Rhan 1 o Atodlen 1 ac unrhyw weithfeydd a awdurdodir gan y Gorchymyn hwn, gan gynnwys y gweithfeydd pellach a nodwyd yn Rhan 2 o Atodlen 1;

mae “adeilad” yn cynnwys unrhyw strwythur neu unrhyw ran o adeilad neu strwythur;

ystyr “cyfeirlyfr” yw'r cyfeirlyfr a ardystiwyd gan Weinidogion Cymru fel y cyfeirlyfr at ddibenion y Gorchymyn hwn;

ystyr “diogelu ceblau” yw diogelu unrhyw geblau sy'n ffurfio rhan o'r gweithfeydd awdurdodedig a chaiff gynnwys bagiau o greigiau, matrisau concriid, cyfnewid cerrig dros ffosydd agored wedi'u torri a chwndid neu bibell a all gynnwys tiwb J neu fesur diogelu pibellau hollt cyffelyb;

mae i “cerbyttfordd” yr un ystyr â “carriageway” yn Neddf 1980;

ystyr “cychwyn” yw dechrau cyflawni unrhyw weithrediad perthnasol (fel y'i diffiniwyd yn adran 56(4) o Ddeddf 1990) sy'n ffurfio rhan o'r gweithfeydd awdurdodedig naill ai ar y tir neu ar y môr heblaw am weithrediadau sy'n cynnwys gwaith dymchwel, ymchwiliadau at ddiben asesu amodau'r ddaear neu wely'r môr, ymchwiliadau archaeolegol, codi unrhyw ddull dros dro o amgáu ac arddangos hysbysiadau neu hysbysebion dros dro; a rhaid dehongli “cychwyn” yn unol â hynny;

ystyr “ceblau cyfathrebu” yw ceblau ffôn a/neu geblau ffeibr optig ar gyfer cyfathrebu'n electronig;

ystyr “datgomisiynu” yw datgomisiynu'r gweithfeydd awdurdodedig (neu unrhyw ran ohonynt) ar ddiwedd eu hoes weithredol ond ni fydd yn cynnwys ailbweru;

ystyr “strategaeth gwella bioamrywiaeth forol fanwl” yw strategaeth gwella bioamrywiaeth forol sy'n unol â'r strategaeth gwella bioamrywiaeth forol ac sy'n disgrifio unrhyw fesurau gwella amrywiaeth arfaethedig i'w cyflwyno fel rhan o

(Application Procedures and Control of Access) Regulations 2007(1);

“address” includes any number or address used for the purposes of electronic transmission;

“array area” means that part of the offshore Order limits established as the array area in Part 3 of Schedule 1 within which Work No. 1 may be constructed, operated, maintained, repowered and decommissioned;

“authorised works” means the scheduled works identified at Part 1 of Schedule 1 and any other works authorised by this Order including the further works identified at Part 2 of Schedule 1;

“building” includes any structure or erection or any part of a building, structure or erection;

“the book of reference” means the book of reference certified by the Welsh Ministers as the book of reference for the purposes of this Order;

“cable protection” means protection of any cables forming part of the authorised works and may include rock bags, concrete mattresses, boulder replacement over open cut trenches and a conduit or duct which may comprise a J tube or similar split pipe protection;

“carriageway” has the same meaning as in the 1980 Act;

“commence” means begin to carry out any material operation (as defined in section 56(4) of the 1990 Act) forming part of the authorised works either onshore or offshore other than operations consisting of demolition work, investigations for the purpose of assessing ground or seabed conditions, archaeological investigations, the erection of any temporary means of enclosure and the temporary display of site notices or advertisements; and “commencement” must be construed accordingly;

“communication cables” means telephone cables and/or fibre optic cables for the transmission of electronic communications;

“decommissioning” means the decommissioning of the authorised works (or any part of them) at the end of their operational life but shall not include repowering;

“detailed marine biodiversity enhancement strategy” means a marine biodiversity enhancement strategy which accords with the outline marine biodiversity enhancement strategy and which describes any proposed biodiversity enhancement measures to be delivered as part of

(1) O.S. 2007/1948, a ddiwygiwyd (mewn perthynas â Chymru) gan OS 2019/293.

(1) S.I. 2007/1948, amended (in relation to Wales) by S.I. 2019/293.

adeiladu neu ailberu dyfeisiau llanwol, hybiau gweithredol neu osod ceblau y mae'n ymwneud â hwy;

ystyr "protocol ar ddefnyddio dyfeisiau" yw datganiad sy'n nodi—

- (a) mewn cysylltiad â dyfeisiau llanwol a hybiau gweithredol sy'n codi o'r wyneb yn yr ardaloedd cyfyngedig a gweddill ardal yr araeau fanylion sy'n cynnwys dimensiynau'r dyfeisiau llanwol neu'r hybiau gweithredol y mae'r ymgwymerwr yn bwriadu eu hadeiladu neu eu hailberu ac asesiad morwedd, tirwedd a gweledol a gynhelir yn unol â'r fethodoleg asesu ar gyfer y datganiad amgylcheddol neu unrhyw ganllawiau arferion gorau a gyhoeddir wedi hynny ar y dyfeisiau llanwol neu'r hybiau gweithredol arfaethedig a fydd yn cynnwys asesiad o effaith gronol y dyfeisiau llanwol a'r hybiau gweithredol arfaethedig a/neu y rhoddyd cydsyniad iddynt (yn unol â phrotocol ar ddefnyddio dyfeisiau cymeradwy) ar adeg ei baratoi, a/neu
- (b) mewn perthynas â dyfeisiau llanwol neu hybiau gweithredol o dan yr wyneb yn yr ardal gyfyngedig – UKC 8m gyda lle clirio arfaethedig o dan y cêl o lai nag 8m fanylion am y ddyfais lanwol neu'r hwb gweithredol i'w (d)defnyddio, a/neu
- (c) mewn perthynas â dyfeisiau llanwol neu hybiau gweithredol o dan y wyneb yn yr ardal gyfyngedig UKC 20m gyda lle clirio arfaethedig o dan y cêl o lai nag 20m fanylion am y ddyfais lanwol neu'r hwb gweithredol i'w (d)defnyddio ac ym mhob achos bydd yn gyson â'r asesiad risg mordwyol wedi'i ddiweddararu ar gyfer y gwaith llanwol perthnasol;

ystyr "Cyfarwyddeb AEA" yw Cyfarwyddeb 2011/92/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 13 Rhagfyr 2011 fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2014/52/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 16 Ebrill 2014 ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd(1);

ystyr "darlledu electronig" yw cyfathrebiad a ddarlledir—

- (a) drwy rwydwaith cyfathrebu electronig, neu
- (b) drwy fodd arall ond ar ffurf electronig;

the construction or repowering of tidal devices, operational hubs, or installation of cables to which it relates;

"device deployment protocol" means a statement identifying—

- (a) in respect of surface emergent tidal devices and operational hubs in the restricted areas and the remainder of the array area details including dimensions of the tidal device or operational hubs that the undertaker proposes to construct or repower and an updated seascape, landscape and visual assessment undertaken in accordance with the assessment methodology for the environmental statement or any subsequently published best practice guidance of those proposed tidal devices or operational hubs which shall include an assessment of the cumulative impact of the proposed tidal devices and hubs operational and/or consented (pursuant to an approved device deployment protocol) at the time of its preparation, and/or
- (b) in respect of subsurface tidal devices or operational hubs in the restricted area – UKC 8m with a proposed under keel clearance of less than 8m details of the tidal device or operational hub to be deployed, and/or
- (c) in respect of subsurface tidal devices or operational hubs in the restricted area UKC 20m with a proposed under keel clearance of less than 20m details of the tidal device or operational hub to be deployed, and in each case shall be consistent with the updated navigational risk assessment for the relevant tidal work;

"EIA Directive" means Directive 2011/92/EU of the European Parliament and of the Council of 13 December 2011 as amended by the Directive 2014/52/EU of the European Parliament and of the Council of 16 April 2014 on the assessment of the effects of certain public and private projects on the environment(1);

"electronic transmission" means a communication transmitted—

- (a) by means of an electronic communications network, or
- (b) by other means but while in electronic form;

(1) Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd Rhif L 026, 28.1.2012, t.1.

(1) OJ L 026, 28.1.2012, p.1

ystyr “datganiad amgylcheddol” yw'r datganiad amgylcheddol a gyflwynir ar y cyd â'r cais am y Gorchymyn hwn fel yr ychwanegir ato neu fel y'i diwygir gan y wybodaeth amgylcheddol bellach a gyflwynir i gefnogi'r cais ac fel y'i hardystir ynghyd â'r datganiad amgylcheddol gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Gorchymyn hwn;

ystyr “dogfen gyfatebol” yw dogfen a restrir yng nghlofn 1 o Ran 4 o Atodlen 1 y mae ei chynnwys hefyd yn ddarostyngedig i amod ar unrhyw drwydded forol a roddir ar gyfer gweithfeydd llanwol;

ystyr “safle Ewropeaidd” yw safle Ewropeaidd fel y'i diffiniwyd yn Rheoliad 8 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017(1);

ystyr “coridor ceblau allforio” yw'r rhan o derfynau'r Gorchymyn ar y môr a sefydlwyd fel y coridor ceblau allforio yn Rhan 3 o Atodlen 1;

mae i “troetffordd” yr un ystyr â “footway” yn Neddf 1980;

mae i “priffordd” ac “awdurdod priffyrdd” yr un ystyr â “highway” a “highway authority” yn Neddf 1980;

ystyr “terfynau'r gwyro” yw terfynau'r gwyro ar gyfer y gweithfeydd ar y tir a ddangosir ar blaniau'r tir;

ystyr “terfynau tir sydd i'w gaffael neu i'w ddefnyddio” yw'r tir a ddangosir ar blaniau'r tir;

mae “cynnal a chadw” yn cynnwys archwilio, atgyweirio, adnewyddu, cyfnewid, addasu, newid ac mae hefyd yn cynnwys, mewn perthynas â rhan gyfansoddol o waith ond nid y gwaith cyfan, waredu, clirio, adnewyddu, ailadeiladu, dymchwel, cyfnewid a gwella unrhyw ran o'r gweithfeydd awdurdodedig, ond nid yw'n cynnwys unrhyw weithgarwch (heblaw gweithgarwch a awdurdodir gan neu o dan y Gorchymyn hwn) sydd o fewn dosbarth a restrir yn Atodiad I i'r Gyfarwyddeb AEA neu mewn dosbarth a restrir yn Atodiad II i'r Gyfarwyddeb AEA ac, oherwydd ei faint neu ei leoliad, sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd ac nad yw wedi cael ei ystyried na'i asesu yn y datganiad amgylcheddol a rhaid dehongli “cynnal a chadw” yn unol â hynny;

ystyr “MW” yw megawattiau;

ystyr “Cyfoeth Naturiol Cymru” yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

“environmental statement” means the environmental statement submitted with the application for this Order as supplemented and amended by the further environmental information submitted in support of the application and certified together as the environmental statement by the Welsh Ministers for the purposes of this Order;

“equivalent document” means a document listed in column 1 of Part 4 of Schedule 1 the content of which is also the subject of a condition on any marine licence granted for tidal works;

“european site” means a European site as defined in Regulation 8 of the Conservation of Habitats and Species Regulations 2017(1);

“export cable corridor” means that part of the offshore Order limits established as the export cable corridor in Part 3 of Schedule 1;

“footway” has the same meaning as in the 1980 Act;

“highway” and “highway authority” have the same meaning as in the 1980 Act;

“the limits of deviation” means the limits of deviation for the onshore works shown on the onshore plans;

“limits of land to be acquired or used” means the land shown on the onshore plans;

“maintain” includes inspect, repair, refurbish, replace, adjust, alter and also includes, in respect of a constituent part of a work but not the whole of a work, remove, clear, refurbish, reconstruct, demolish, replace and improve any part of the authorised works, but does not include any activity (other than an activity authorised by or under this Order) that is within a class listed in Annex I to the EIA Directive or in a class listed in Annex II to the EIA Directive and, by nature of its size or location, likely to have significant effects on the environment and which has not been considered and assessed in the environmental statement and “maintenance” must be construed accordingly;

“MW” means megawatts;

“Natural Resources Wales” means the Natural Resources Body for Wales;

(1) O.S. 2017/1012.

(1) S.I. 2017/1012.

ystyr “terfynau'r Gorchymyn ar y môr” yw'r terfynau y caiff y gweithfeydd llanwol eu hadeiladu, eu gweithredu, eu cynnal a'u cadw, eu hailbweru a'u datgomisiynu oddi mewn iddynt a ddangosir ar blaniau'r gweithfeydd alltraeth;

ystyr “planiau'r gweithfeydd alltraeth” mewn perthynas â'r gweithfeydd llanwol yw'r planiau a baratoir yn unol â rheol 12(1)(a) o Reolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006 ac a ardystir gan Weinidogion Cymru fel planiau'r gweithfeydd alltraeth at ddibenion y Gorchymyn hwn;

ystyr “terfynau'r Gorchymyn ar y tir” yw terfynau'r gwyro a therfynau tir sydd i'w gaffael neu i'w ddefnyddio at gyfer y gweithfeydd ar y môr fel y'u dangosir ar blaniau'r tir;

ystyr “planiau'r tir” yw'r planiau a baratoir yn unol â rheol 12(1)(a) a rheol 12(5) o Reolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006 ac a ardystir gan Weinidogion Cymru fel planiau'r tir at ddibenion y Gorchymyn hwn;

ystyr “gweithfeydd ar y tir” yw cymaint o'r gweithfeydd awdurdodedig ag sy'n gorwedd tua'r tir o ddistyll cymedrig y gorllanw;

ystyr “hwb gweithredol” yw hwb ar gyfer casglu a chyfuno trydan a gynhyrchir gan nifer o ddyfeisiau llanwol sy'n cynnwys rhan o Waith Rhif 1;

ystyr “strategaeth gwella bioamrywiaeth forol amlinellol” yw'r ddogfen a ardystiwyd fel y strategaeth gwella bioamrywiaeth forol amlinellol gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Gorchymyn hwn neu unrhyw strategaeth gwella bioamrywiaeth forol amlinellol sydd wedi'i diweddarau neu wedi'i diwygio ag a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â thelerau unrhyw drwydded forol y gellir ei rhoi ar gyfer y gweithfeydd llanwol;

mae i “perchennog”, mewn perthynas â thir, yr un ystyr ag “owner” yn Neddf Caffael Tir 1981(1);

ystyr “paramedrau'r prosiect” yw'r paramedrau ar gyfer y gweithfeydd awdurdodedig fel y'u nodwyd yn nhablau 4-21 i 4-30 o'r bennod 4 ddiwygiedig o'r wybodaeth amgylcheddol wedi'i diweddarau sy'n rhan o'r datganiad amgylcheddol ac sy'n dwyn cyfeirnod dogfen MOR-RHDHV-DOC-0004 fersiwn F4.0 dyddiedig Hydref 2019;

“offshore Order limits” means the limits within which the tidal works may be constructed, operated, maintained, repowered and decommissioned shown on the offshore works plans;

“offshore works plans” means in relation to the tidal works the plans prepared in pursuance of rule 12(1)(a) of the Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) Rules 2006 and certified by the Welsh Ministers as the offshore works plans for the purposes of this Order;

“onshore Order limits” means the limits of deviation and the limits of land to be acquired or used for the onshore works as shown on the onshore plans;

“onshore plans” means the plans prepared in pursuance of both rule 12(1)(a) and rule 12(5) of the Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) Rules 2006 and certified by the Welsh Ministers as the onshore plans for the purposes of this Order;

“onshore works” means so much of the authorised works as lies landward of mean low water springs;

“operational hub” means a hub for the collection and aggregation of electricity generated from a number of tidal devices comprising part of Work No. 1;

“outline marine biodiversity enhancement strategy” means the document certified as the outline marine biodiversity enhancement strategy by the Welsh Ministers for the purposes of this order or any updated or amended outline marine biodiversity enhancement strategy as may either be approved by the Welsh Ministers or by Natural Resources Wales in accordance with the terms of any marine licence that may be granted for the tidal works;

“owner” in relation to land, has the same meaning as in the Acquisition of Land Act 1981(1);

“project parameters” means the parameters for the authorised works as set out in tables 4-21 to 4-30 of the updated chapter 4 of updated environmental information forming part of the environmental statement and carrying document reference MOR-RHDHV-DOC-0004 version F4.0 dated October 2019;

(1) 1981 p. 67. Y diffiniad o “perchennog” fel y'i diwygiwyd gan baragraff 9 o Atodlen 15 i Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34). Mae diwygiadau eraill i adran 7 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(1) 1981 c. 67. The definition of “owner” as amended by paragraph 9 of Schedule 15 to the Planning and Compensation Act 1991 (c. 34). There are other amendments to section 7 which are not relevant to this Order.

ystyr “ailbweru” yw cyfnewid dyfais lanwol bresennol â dyfais lanwol wahanol yn yr un lleoliad neu mewn lleoliad gwahanol a all gynnwys—

- (a) tynnu ymaith ddyfeisiau llanwol, hybiau cysylltiedig, ceblau rhwng araeau a chyfarpar monitro sy'n cynnwys y rhan honno o Waith Rhif 1 ag sy'n cael ei hailbweru; ac
- (b) adeiladu dyfeisiau llanwol, hybiau cysylltiedig, ceblau rhwng araeau a chyfarpar monitro newydd a gweithfeydd awdurdodedig eraill gyda Gwaith Rhif 1 ynghyd ag unrhyw weithfeydd cysylltiedig a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 1;

ond nid yw'n cynnwys unrhyw weithgarwch (heblaw gweithgarwch a awdurdodir gan neu o dan y Gorchymyn hwn) sydd o fewn dosbarth a restrir yn Atodiad I i'r Gyfarwyddeb AEA neu mewn dosbarth a restrir yn Atodiad II i'r Gyfarwyddeb AEA ac, oherwydd ei faint neu ei leoliad, sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd ac nad yw wedi cael ei ystyried na'i asesu yn y datganiad amgylcheddol a rhaid dehongli “ailbweru” yn unol â hynny;

ystyr “plan ardal gyfyngedig” yw'r plan a nodir â ‘Plan yr Ardal Gyfyngedig’ ac sy'n dwyn y cyfeirnod PB5034-ES-004-005 Rev 05 ac a ardystir gan Weinidogion Cymru fel plan yr ardal gyfyngedig at ddibenion y Gorchymyn hwn;

ystyr “ardal gyfyngedig – gogleddol” yw'r rhan honno o ardal yr araeau a sefydlwyd fel yr ardal gyfyngedig – gogleddol, yn Rhan 3 o Atodlen 1 ac a ddangosir mewn lliw aur ar Blan yr Ardal Gyfyngedig;

ystyr “ardal gyfyngedig - UKC 8m” yw'r rhan o ardal yr araeau a sefydlwyd fel yr ardal gyfyngedig UKC 8m yn Rhan 3 o Atodlen 1 ac a ddangosir mewn lliw glas ar Blan yr Ardal Gyfyngedig;

ystyr “ardal gyfyngedig – UKC 20m” yw'r rhan o'r ardal a sefydlwyd fel yr ardal gyfyngedig – UKC 20m yn Rhan 3 o Atodlen 1 ac a ddangosir mewn lliw porffor ar Blan yr Ardal Gyfyngedig;

ystyr “ardaloedd cyfyngedig” yw'r ardal gyfyngedig – gogleddol yr ardal gyfyngedig – UKC 8m a'r ardal gyfyngedig – UKC 20m;

ystyr “yr Ysgrifennydd Gwladol” yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol neu ei olynydd o ran swyddogaeth sydd â phwerau i sicrhau datgomisiynu gosodiadau ynni adnewyddadwy alltraeth yn unol â Deddf 2004;

“repower” means the replacement of an existing tidal device with a different tidal device in the same or different location which may include the—

- (a) removal of tidal devices, associated hubs, inter-array cables and monitoring equipment comprising that part of Work No. 1 being repowered; and
- (b) the construction of new tidal devices, associated hubs, inter-array cables and monitoring equipment and other authorised works with Work No. 1 together with any related works identified in Part 2 of Schedule 1;

but does not include any activity (other than an activity authorised by or under this Order) that is within a class listed in Annex 1 to the EIA Directive or in a class listed in Annex II to the EIA Directive and, by nature if its size or location, likely to have significant effects of the environment and which has not been considered and assessed in the environmental statement and “repowered” must be construed accordingly;

“restricted area plan” means the plan marked ‘Restricted Area Plan’ and carrying reference PB5034-ES-004-005 Rev 05 and certified by the Welsh Ministers as the restricted area plan for the purposes of this Order;

“restricted area – northern” means that part of the array area established as the restricted area – northern, in Part 3 of Schedule 1 and shown shaded gold on the Restricted Area Plan;

“restricted area – UKC 8m” means that part of the array area established as the restricted area UKC 8m in Part 3 of Schedule 1 and shown shaded blue on the Restricted Area Plan;

“restricted area – UKC 20m” means that part of the area established as the restricted area - UKC 20m in Part 3 of Schedule 1 and shown shaded purple on the Restricted Area Plan;

“restricted areas” means the restricted area – northern the restricted area – UKC 8m and the restricted area – UKC 20m;

“the Secretary of State” means the Secretary of State for Business Energy and Industrial Strategy or its successor in function with powers to secure the decommissioning of offshore renewable energy installations pursuant to the 2004 Act;

ystyr “y trawsluniau” yw'r trawsluniau a baratoir yn unol â rheol 12(3) o Reolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006 ac a ardystiwyd gan Weinidogion Cymru fel y trawsluniau at ddibenion y Gorchymyn hwn;

mae “stryd” yn cynnwys rhan o stryd;

mae i “awdurdod strydoedd”, mewn perthynas â stryd, yr yn ystyr â “street authority” yn Rhan 3 o Ddeddf 1991;

ystyr “dyfais lanwol” yw generadur ynni'r llanw ar wahân sy'n cynnwys trawsnewidiwr/trawsnewidwyr ynni'r llanw, sylfeini a strwythurau ategol;

ystyr “trawsnewidiwr ynni'r llanw” yw'r rhan honno o ddyfais lanwol sy'n trawsnewid ynni cinetig a phosibl a geir o fewn dŵr llanwol symudol yn drydan;

ystyr “gweithfeydd llanwol” yw cymaint o'r gweithfeydd awdurdodedig ag sy'n gorwedd tua'r môr o benllanw cymedrig y gorllanw neu unrhyw ran neu rannau ohonynt a byddant yn cynnwys unrhyw gyfryw weithfeydd ag sydd wedi cael eu hailbweru ac mewn perthynas ag erthygl 21 (diogelwch mordwyo) ac maent yn cynnwys unrhyw weithfeydd carthu, boed hynny yn unol ag erthygl 16 (pŵer i garthu) neu fel arall;

ystyr “y tribiwnlys” yw Siambr Diroedd yr Uwch Dribiwnlys;

ystyr “Trinity House” yw Corporation of Trinity House o Deptford Strond;

ystyr “ymgymerwr” mewn perthynas ag adeiladu, cynnal a chadw, ailbweru a datgomisiynu'r gweithfeydd awdurdodedig yw Menter Môn Morlais Cyfyngedig neu'r cyfryw gwmni arall y trosglwyddir buddiant y Gorchymyn iddo yn unol ag erthygl 6(1) ac mewn perthynas â'r gweithfeydd llanwol mae'n cynnwys unrhyw berson y mae rhan o'r gweithfeydd llanwol neu derfynau'r Gorchymyn ar y môr wedi cael ei phrydlesu iddo yn unol ag erthygl 6(2);

ystyr "asesiad risg mordwyol wedi'i ddiweddarau" yw asesiad risg mordwyol wedi'i ddiweddarau ar gyfer pob cam perthnasol o bob gwaith llanwol a wneir yn unol â methodoleg ac argymhellion Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a nodir yn MGN654 ‘Offshore Renewable Energy Installations (OREIs) – Guidance on UK Navigational Practice, Safety and Emergency Response’ a'i atodiadau neu ddiweddiadau dilynol ac ystyried lleoliad a nodweddion y gweithfeydd llanwol y cynigir y dylid eu defnyddio, y dull o adeiladu, angori goleuadau a gynigir, gweithredu ac unrhyw ofynion cynnal a

“the sections” means the sections prepared in pursuance of rule 12(3) of the Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) Rules 2006 and certified by the Welsh Ministers as the sections for the purposes of this Order;

“street” includes part of a street;

“street authority”, in relation to a street, has the same meaning as in Part 3 of the 1991 Act;

“tidal device” means a discrete tidal energy generator comprising tidal energy converter(s), foundations and support structures;

“tidal energy converter” means that part of a tidal device that converts kinetic and potential energy contained within moving tidal water into electricity;

“tidal works” means so much of the authorised works as lies seaward of mean high water spring or any part or parts thereof and shall include any such works which have been repowered and in relation to article 21 (safety of navigation) includes any dredging works whether undertaken pursuant to article 16 (power to dredge) or otherwise;

“the tribunal” means the Lands Chamber of the Upper Tribunal;

“Trinity House” means the Corporation of Trinity House of Deptford Strond;

“undertaker” means in relation to the construction, maintenance repowering and decommissioning of the authorised works Menter Môn Morlais Limited or such other company to whom the benefit of the Order is transferred pursuant to article 6(1) and in relation to the tidal works includes any person to whom part of the tidal works or the offshore Order limits has been let pursuant to article 6(2);

“updated navigational risk assessment” means an updated navigational risk assessment for each relevant phase of each tidal work undertaken in accordance with the methodology and recommendations set out in the Maritime and Coastguard Agency’s MGN654 ‘Offshore Renewable Energy Installations (OREIs) – Guidance on UK Navigational Practice, Safety and Emergency Response’ and its annexes or subsequent updates thereto and taking into account the location and characteristics of the tidal works proposed for deployment, the method of construction anchoring proposed lighting, operation and any associated maintenance

chadw cysylltiedig neu ddulliau ailbweru neu ddatgomisiynu (fel y bo'n gymwys) ac asesiad o effeithiau cronol y cynigion gyda gweithfeydd llanwol a ddefnyddiwyd yn flaenorol a bydd yn cynnwys graddau unrhyw barth diogelwch arfaethedig i wneud cais amdano yn unol ag erthygl 43;

mae "cwrs dŵr" yn cynnwys pob afon, ffrwd, ffos, draen camlas, toriad, cwlfer, clawdd, llifddor, carthffos a thramwy y mae dŵr yn llifo drwyddi neu drwyddo ac eithrio carthffos neu ddraen gyhoeddus.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn i hawliau dros dir yn cynnwys cyfeiriadau at hawliau i wneud, neu i osod a chynnal a chadw, unrhyw beth yn y tir, arno neu oddi tano neu yn yr awyr uwchlaw ei wyneb.

(3) Dehonglir unrhyw bellteroedd, cyfeiriadau a hydroedd a nodir yn y disgrifiad o'r gweithfeydd awdurdodedig neu mewn unrhyw ddisgrifiad o bwerau neu diroedd fel pe bai'r geiriau "neu fwy neu lai" wedi'u mewnosod ar ôl pob cyfryw bellter, cyfeiriad a hyd, a thybir bod pellteroedd rhwng pwyntiau ar waith awdurdodedig wedi'u mesur ar hyd y gwaith awdurdodedig.

RHAN 2

Darpariaethau ynghylch Gweithfeydd

Prif bwerau

Pŵer i adeiladu, cynnal a chadw, ailbweru a datgomisiynu gweithfeydd

3.—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn caiff yr ymgymwrwr adeiladu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r gweithfeydd awdurdodedig.

(2) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn caiff yr ymgymwrwr adeiladu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r gweithfeydd llanwol neu unrhyw rannau ohonynt o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y môr.

(3) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn caiff yr ymgymwrwr ailbweru Gwaith Rhif 1 neu unrhyw rannau ohono o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y môr.

(4) Wrth adeiladu, cynnal a chadw, ailbweru a datgomisiynu'r gweithfeydd llanwol, rhaid i'r dogfennau yng ngholofn 1 o Ran 4 o Atodlen 1 gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddynt cyn bod y gweithgarwch yng ngholofn 2 yn digwydd a bydd yn rhaid i'r cyfryw ddogfennau fod yn unol ag unrhyw amodau sy'n ymwneud â'u cynnwys a osodir ar unrhyw drwydded forol ar gyfer y gweithfeydd llanwol perthnasol ac ni fyddant yn awdurdodi unrhyw weithfeydd y tu allan i baramedrau'r prosiect.

requirements or methods of repowering or decommissioning (as applicable) and an assessment of the cumulative effects of the proposals with previously deployed tidal works and shall include the extent of any proposed safety zone to be applied for in accordance with article 43;

"watercourse" includes all rivers, streams, ditches, drains, canals, cuts, culverts, dykes, sluices, sewers and passages through which water flows except a public sewer or drain.

(2) References in this Order to rights over land include references to rights to do, or to place and maintain, anything in, on or under land or in the air-space above its surface.

(3) All distances, directions and lengths stated in the description of the authorised works or in any description of powers or lands are to be construed as if the words "or thereabouts" were inserted after each such distance, direction and length, and distances between points on an authorised work are to be taken to be measured along the authorised work.

PART 2

Works Provisions

Principal powers

Power to construct maintain, repower and decommission works

3.—(1) Subject to the provisions of this Order the undertaker may construct, maintain and decommission the authorised works.

(2) Subject to the provisions of this Order the undertaker may construct, maintain and decommission the tidal works or any parts thereof within the offshore Order limits.

(3) Subject to the provisions of this Order the undertaker may repower Work No. 1 or any parts thereof within the offshore Order limits.

(4) In constructing, maintaining, repowering and decommissioning the tidal works the documents in column 1 of Part 4 of Schedule 1 must be submitted to and approved in writing by the Welsh Ministers prior to the activity in column 2 occurring and such documents shall accord with any conditions relating to their content imposed on any marine licence for the relevant tidal works and shall not authorise any works outside the project parameters.

(5) Ni fydd Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo unrhyw brotocol ar ddefnyddio dyfeisiau yn unol â pharagraff (4) mewn perthynas ag adeiladu neu ailbweru dyfeisiau llanwol sy'n codi o'r arwyneb a hybiau gweithredol yn ardal yr araeau heb ymgynghori â Chyngor Sir Ynys Môn yn gyntaf ac ni fydd yn cymeradwyo unrhyw brotocol ar ddefnyddio dyfeisiau, cynllun rheoli ceblau, rhaglen ddatgomisiynu nac asesiad risg mordwyol wedi'i ddiweddarau yn unol â pharagraff (4) heb ymgynghori â Trinity House ac Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn gyntaf, ac ym mhob achos bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw i ymatebion yr ymgynghoreion hynny.

(6) Rhaid i'r gweithfeydd llanwol ac unrhyw rannau ohonynt gael eu hadeiladu, eu cynnal a'u cadw, eu hailbweru a'u datgomisiynu (fel y bo'n briodol) yn unol â'r dogfennau a gymeradwyir yn unol â pharagraff (4) uchod ac eithrio y gellir diwygio'r cyfryw ddogfennau o bryd i'w gilydd gyda chytundeb Gweinidogion Cymru.

(7) At ddibenion paragraffau (4) a (6) uchod, bernir y bydd unrhyw gymeradwyaeth o ddogfen gyfatebol yn unol ag un o amodau trwydded forol a roddir ar gyfer y gweithfeydd llanwol neu ddiwygiad y cytunwyd arno i'r cyfryw ddogfen yn gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru.

(8) Ni chaiff unrhyw weithfeydd llanwol gychwyn nes bod rhaglen ddatgomisiynu ysgrifenedig yn unol ag unrhyw hysbysiad a gyflwynir i'r ymgwymerwr gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag adran 105(2) o Ddeddf 2004 wedi'i gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w gymeradwyo.

Pŵer i wro

4. Wrth adeiladu neu gynnal a chadw'r gweithfeydd alltraeth—

- (a) caiff yr ymgwymerwr mewn perthynas â Gweithfeydd Rhif 3 i 9 wro'n ochrol i unrhyw raddau oddi wrth y llinellau neu'r sefyllfaoedd a ddangosir ar blaniau'r tir o fewn terfynau'r gwyro;
- (b) ni chaniateir i'r ymgwymerwr mewn perthynas â Gweithfeydd Rhif 7 ac 8 adeiladu unrhyw weithfeydd o fewn 1.6 metr i wyneb y ddaear; a
- (c) chaiff yr ymgwymerwr mewn perthynas â phob un o'r gweithfeydd awdurdodedig a bennir yng ngholofn (3) o'r tabl a nodir ym Mhennod 2 o Ran 2 i Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn, adeiladu'r gweithfeydd hynny yn y tir a nodir mewn perthynas â'r gwaith penodol hwnnw yng ngholofnau (1) a (2) o'r tabl hwnnw.

(5) The Welsh Ministers shall not approve any device deployment protocol pursuant to paragraph (4) in respect of the construction or repowering of surface emergent tidal devices and operational hubs in the array area without having first consulted with the Isle of Anglesey County Council and shall not approve any device deployment protocol, cable management plan, decommissioning programme or updated navigational risk assessment pursuant to paragraph (4) without having first consulted Trinity House and the Maritime and Coastguard Agency, and in each case the Welsh Ministers shall have regard to the responses of those consultees.

(6) The tidal works and any parts thereof must be constructed maintained, repowered and decommissioned (as appropriate) in accordance with the documents approved pursuant to paragraph (4) above save that such documents may be revised from time to time with the agreement of the Welsh Ministers.

(7) For the purposes of paragraphs (4) and (6) above any approval to an equivalent document pursuant to a condition of a marine licence granted for the tidal works or an agreed amendment to such a document shall be deemed to be approval of the Welsh Ministers.

(8) No tidal works may commence until a written decommissioning programme in compliance with any notice served upon the undertaker by the Secretary of State pursuant to section 105(2) of the 2004 Act has been submitted to the Secretary of State for approval.

Power to deviate

4. In constructing or maintaining the onshore works the undertaker —

- (a) may in relation to Works Nos 3 to 9 deviate laterally to any extent from the lines or situations shown on the onshore plans within the limits of deviation;
- (b) must not in relation to Works Nos. 7 and 8 construct any works within 1.6 metres of the surface of the ground; and
- (c) may in relation to each of the authorised works specified in column (3) of the table set out in Chapter 2 of Part 2 to Schedule 1 to this Order, construct those works in the land identified in relation to that particular works in columns (1) and (2) of that table.

Pŵer i weithredu

5.—(1) Caiff yr ymgwymerwr weithredu a defnyddio'r gweithfeydd awdurdodedig fel system ar gyfer cynhyrchu a thrawsyrro trydan.

(2) Wrth weithredu'r gweithfeydd alltraeth rhaid i'r ymgwymerwr gydymffurfio â'r dogfennau a nodir yn Rhan 4 o Atodlen 1 fel y'u cymeradwywyd i'r graddau sy'n berthnasol i weithredu a defnyddio'r gweithfeydd llanwol.

Budd y Gorchymyn

6.—(1) Caiff yr ymgwymerwr, gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru, drosglwyddo i berson arall ("y trosglwyddai") unrhyw ran neu bob rhan o fudd darpariaeth y Gorchymyn hwn gan gynnwys ei hawl i adeiladu, cynnal a chadw, gweithredu, ailberu a datgomisiynu'r gweithfeydd awdurdodedig (neu unrhyw ran ohonynt) a'r cyfryw hawliau statudol ag y caiff yr ymgwymerwr a'r trosglwyddai gytuno arnynt.

(2) Caiff yr ymgwymerwr roi i berson arall ("y prydlesai") am gyfnod y cytunir arno rhwng yr ymgwymerwr a'r prydlesai yr hawl i adeiladu, cynnal a chadw, gweithredu, ailberu a datgomisiynu'r gweithfeydd llanwol (neu unrhyw ran ohonynt) a'r cyfryw hawliau statudol cysylltiedig ag y cytunir arnynt felly.

(3) Mae arfer y pwerau a roddir drwy ddeddfiad gan unrhyw berson yn unol â throsglwyddo neu roi'r pwerau hynny o dan baragraff (1) neu (2) yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau, atebolrwyddau a rhwymedigaethau ag a fyddai'n gymwys o dan y Gorchymyn hwn pe bai'r pwerau hynny yn cael eu harfer gan yr ymgwymerwr.

*Strydoedd
Cymhwysio Deddf 1991*

Pŵer i wneud gweithfeydd stryd

7.—(1) Caiff yr ymgwymerwr, at ddibenion adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r gweithfeydd awdurdodedig, fynd ar gymaint o unrhyw un o'r strydoedd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ag sydd o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y tir a chaiff—

- (a) torri neu agor y stryd, neu unrhyw garthffos, draen neu dwnnel oddi tani,
- (b) twnelu neu durio o dan y stryd;
- (c) gosod cyfarpar yn y stryd;
- (d) cynnal a chadw cyfarpar yn y stryd neu newid ei leoliad; a

Power to operate

5.—(1) The undertaker may operate and use the authorised works as a system for generating and transmitting electricity.

(2) In operating the tidal works the undertaker must comply with the documents set out in Part 4 of Schedule 1 as approved to the extent relevant to the operation and use of the tidal works.

Benefit of the Order

6.—(1) The undertaker may, with the consent of the Welsh Ministers, transfer to another person ("the transferee") any or all of the benefit of the provision of this Order including its right to construct, maintain, operate, repower and decommission the authorised works (or any part of them) and such related statutory rights as may be agreed between the undertaker and the transferee.

(2) The undertaker may grant to another person ("the lessee") for a period agreed between the undertaker and the lessee the right to construct, maintain, operate, repower and decommission the tidal works (or any part of them) and such related statutory rights as may be so agreed.

(3) The exercise of the powers conferred by any enactment by any person in pursuance of any transfer or grant under paragraph (1) or (2) is subject to the same restrictions, liabilities and obligations as would apply under this Order if those powers were exercised by the undertaker.

*Streets
Application of the 1991 Act*

Power to execute street works

7.—(1) The undertaker may, for the purposes of the construction operation and maintenance of the authorised works, enter upon so much of any of the streets specified in Schedule 3 to this Order as is within the onshore Order limits and may—

- (a) break up or open the street, or any sewer, drain or tunnel under it,
- (b) tunnel or bore under the street;
- (c) place apparatus in the street;
- (d) maintain apparatus in the street or change its position; and

- (e) gwneud unrhyw weithfeydd sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw weithfeydd y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (a)-(d) neu sy'n gysylltiedig â hwy.

(2) Mae'r awdurdod a roddir gan baragraff (1) yn hawl statudol at ddibenion adrannau 48(3) (strydoedd, gweithfeydd stryd ac ymgwymerwyr) a 51(1) (gwahardd gweithfeydd stryd anawdurdodedig) o Ddeddf 1991.

(3) Mae adrannau 54 i 106 o Ddeddf 1991 yn gymwys i unrhyw weithfeydd stryd a gyflawnir o dan baragraff (1).

(4) Mae'r erthygl hon yn ddarostyngedig i baragraff 2 o Atodlen 10 (darpariaethau sy'n ymwneud ag ymgwymerwyr statudol etc) i'r Gorchymyn hwn.

(5) Yn yr erthygl hon mae i "cyfarpar" yr yn ystyr â "apparatus" yn Rhan 3 o Ddeddf 1991.

Cau strydoedd dros dro

8.—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r erthygl hon, caiff yr ymgwymerwr, mewn cysylltiad ag adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisio'r gweithfeydd awdurdodedig, gau, newid neu ddargyfeirio unrhyw stryd dros dro a chaiff, am unrhyw gyfnod rhesymol—

- (a) dargyfeirio'r traffig o'r stryd; ac
- (b) atal personau rhag mynd ar hyd y stryd.

(2) Heb gyfyngu ar gwmpas ar baragraff (1), caiff yr ymgwymerwr ddefnyddio unrhyw stryd sy'n cael ei chau o dan y pwerau a roddir gan yr erthygl hon o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y tir fel safle gwaith dros dro.

(3) Pan fo'r ymgwymerwr yn atal personau rhag mynd ar hyd y stryd, rhaid i'r ymgwymerwr roi mynediad rhesymol i neu o safleoedd sy'n ffinio â stryd neu a wasanaethir gan stryd yr effeithir arni o ganlyniad i gau, newid neu ddargyfeirio stryd dros dro o dan yr erthygl hon pe na bai'r cyfryw fynediad fel arall.

(4) Heb gyfyngu ar baragraff (1), caiff yr ymgwymerwr gau, newid neu ddargyfeirio dros dro y strydoedd a nodir yng ngholofnau (1) a (2) o Atodlen 4 (strydoedd sydd i'w cau dros dro) i'r graddau a bennir, drwy gyfeirio at y llythrennau a'r rhifau a ddangosir ar blaniau'r tir, yng ngholofn (3) o'r Atodlen honno.

(5) Rhaid i'r ymgwymerwr beidio â chau, newid na dargyfeirio dros dro—

- (a) y strydoedd a nodir fe y'u crybwyllir ym mharagraff (4) heb ymgynghori â'r awdurdod strydoedd yn gyntaf; ac
- (b) unrhyw stryd arall heb gydsyniad yr awdurdod strydoedd, a gaiff atodi amodau rhesymol i unrhyw gydsyniad, gan gynnwys ynglŷn â'r rhybudd i'w roi.

- (e) execute any works required for or incidental to any works referred to in sub-paragraphs (a)-(d).

(2) The authority given by paragraph (1) is a statutory right for the purposes of sections 48(3) (streets, street works and undertakers) and 51(1) (prohibition of unauthorised street works) of the 1991 Act.

(3) Sections 54 to 106 of the 1991 Act apply to any street works carried out under paragraph (1).

(4) This article is subject to paragraph 2 of Schedule 10 (provisions relating to statutory undertakers etc) to this Order.

(5) In this article "apparatus" has the same meaning as in Part 3 of the 1991 Act.

Temporary stopping up of streets

8.—(1) Subject to the provisions of this article, the undertaker may, in connection with the construction operation, maintenance and decommissioning of the authorised works, temporarily stop up alter or divert any street and may, for any reasonable time—

- (a) divert the traffic from the street; and
- (b) prevent persons from passing along the street.

(2) Without limitation on the scope of paragraph (1), the undertaker may use any street stopped up under the powers conferred by this article within the onshore Order limits as a temporary working site.

(3) Where the undertaker prevents persons from passing along the street, the undertaker must provide reasonable access to or from premises abutting or served by a street affected by the temporary stopping up, alteration or diversion of a street under this article if there would otherwise be no such access.

(4) Without limiting paragraph (1), the undertaker may temporarily stop up, alter or divert the streets set out in columns (1) and (2) of Schedule 4 (streets to be temporarily stopped up) to the extent specified, by reference to the letters and numbers shown on the onshore plans, in column (3) of that Schedule.

(5) The undertaker must not temporarily stop up, alter or divert—

- (a) the streets set out as mentioned in paragraph (4) without first consulting the street authority; and
- (b) any other street without the consent of the street authority, which may attach reasonable conditions to any consent including as to notice to be given.

(6) Mae gan unrhyw berson sy'n dioddef colled drwy atal unrhyw ffordd fynediad breifat o dan yr erthygl hon yr hawl i gael digollediad i'w benderfynu, yn achos anghydfod, o dan Ran 1 o Ddeddf 1961.

(7) Os, o fewn 56 diwrnod i gael cais am gydsyniad o dan baragraff (5)(b), bydd awdurdod strydoedd yn methu â hysbysu'r ymgwymerwr am ei benderfyniad neu'n gwrthod rhoi cydsyniad heb roi unrhyw seiliau dros wrthod, bernir bod yr awdurdod strydoedd hwnnw wedi rhoi ei gydsyniad.

(8) Mae'r erthygl hon yn ddarostyngedig i baragraff 2 o Atodlen 10 (darpariaethau sy'n ymwneud ag ymgwymerwyr statudol etc) i'r Gorchymyn hwn.

Mynediad i weithfeydd

9. Caiff yr ymgwymerwr, at ddibenion y gweithfeydd awdurdodedig—

- (a) ffurfio a gosod ffordd fynediad, neu wella ffordd fynediad bresennol, yn y lleoliad a bennir yng ngholofnau (1) a (2) o Atodlen 5 (mynediad i weithfeydd) yn y pwynt a nodir ag A ar blaniau'r tir ar gyfer y Gorchymyn hwn neu tua'r pwynt hwnnw; a
- (b) chyda chymeradwyaeth yr awdurdod priffyrdd perthnasol ar ôl ymgynghori, nad atelir y cyfryw gymeradwyaeth yn afresymol, ffurfio a gosod y cyfryw ffordd fynediad arall neu wella ffordd fynediad bresennol, yn y cyfryw leoliadau o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y tir ag sydd ei hangen yn rhesymol ar yr ymgwymerwr at ddibenion y gweithfeydd awdurdodedig.

Cytundebau ag awdurdodau strydoedd

10.—(1) Caiff awdurdod strydoedd a'r ymgwymerwr ymrwymo i gytundebau mewn perthynas ag—

- (a) cau, newid neu ddargyfeirio unrhyw stryd a awdurdodir drwy'r Gorchymyn hwn; neu
- (b) cyflawni yn y stryd unrhyw un o'r gweithfeydd y cyfeirir atynt yn erthygl 7 (pŵer i wneud gweithfeydd stryd).

(2) Caiff y cyfryw gytundeb, heb gyfyngu ar baragraff (1),—

- (a) gwneud darpariaeth ar gyfer yr awdurdod strydoedd i gyflawni unrhyw swyddogaeth o dan y Gorchymyn hwn sy'n ymwneud â'r stryd dan sylw;
- (b) cynnwys cytundeb rhwng yr ymgwymerwr a'r awdurdod strydoedd sy'n pennu cyfnod rhesymol ar gyfer cwblhau'r gweithfeydd; ac
- (c) cynnwys y cyfryw delerau ynglŷn â thâl ac fel arall fel y tybia'r partion yn briodol.

(6) Any person who suffers loss by the suspension of any private right of way under this article is entitled to compensation to be determined, in case of dispute, under Part 1 of the 1961 Act.

(7) If within 56 days of receiving and application for consent under paragraph (5)(b) a street authority fails to notify the undertaker of its decision or refuses consent without giving any grounds for its refusal that street authority is deemed to have granted consent.

(8) This article is subject to paragraph 2 of Schedule 10 (provisions relating to statutory undertakers etc) to this Order.

Access to works

9. The undertaker may, for the purposes of the authorised works—

- (a) form and lay out means of access, or improve existing means of access, in the location specified in columns (1) and (2) of Schedule 5 (access to works) at or about the point marked A on the onshore plans to this Order; and
- (b) with the approval of the relevant highway authority after consultation, such approval not to be unreasonably withheld, form and lay out such other means of access or improve existing means of access, at such locations within the onshore Order limits as the undertaker reasonably requires for the purposes of the authorised works.

Agreements with street authorities

10.—(1) A street authority and the undertaker may enter into agreements with respect to—

- (a) any stopping up, alteration or diversion of a street authorised by this Order; or
- (b) the carrying out in the street of any of the works referred to in article 7 (power to execute street works).

(2) Such an agreement may, without limiting paragraph (1),—

- (a) make provision for the street authority to carry out any function under this Order that relates to the street in question;
- (b) include an agreement between the undertaker and the street authority specifying a reasonable time for the completion of the works; and
- (c) contain such terms as to payment and otherwise as the parties consider appropriate.

Defnyddio ffordd preifat ar gyfer adeiladu

11.—(1) Caiff yr ymgwymerwr ddefnyddio unrhyw ffordd breifat o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y tir neu unrhyw ffordd breifat sy'n ffinio â therfynau'r Gorchymyn ar y tir sydd â chyffordd â'r cyfryw ffordd ar gyfer tramwy personau neu gerbydau (gyda neu heb ddeunyddiau, offer a pheiriannau) at ddibenion adeiladu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r gweithfeydd awdurdodedig neu mewn cysylltiad â hynny.

(2) Rhaid i'r ymgwymerwr ddigolledu'r person sy'n gyfrifol am atgyweirio ffordd y mae paragraff (1) yn gymwys iddi am unrhyw golled neu ddifrod a ddioddefir gan y person hwnnw drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff (1).

(3) Mae unrhyw anghydfod ynglŷn â hawl person i gael ei ddigolledu o dan baragraff (2), neu ynglŷn â swm y cyfryw ddigollediad, i'w benderfynu o dan Ran 1 o Ddeddf 1961.

Pwerau atodol

Gollwng dŵr

12.—(1) Caiff yr ymgwymerwr ddefnyddio unrhyw gwrs dŵr neu unrhyw garthffos neu ddraen gyhoeddus i ddraenio dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw neu ddatgomisiynu'r gweithfeydd awdurdodedig ac at y diben hwnnw caiff osod, tynnu a newid pibellau a chaiff, ar unrhyw dir o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y tir, wneud agoriadau i'r cwrs dŵr, carthffos neu'r ddraen gyhoeddus a chysylltiadau ag ef/hi.

(2) Rhaid i unrhyw anghydfod sy'n deillio o arfer y pwerau ym mharagraff (1) i gysylltu â charthffos neu ddraen gyhoeddus neu ei defnyddio gael ei benderfynu fel pe bai'n anghydfod o dan adran 106 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(1).

(3) Rhaid i'r ymgwymerwr beidio â gollwng unrhyw ddŵr i mewn i unrhyw gwrs dŵr, carthffos neu ddraen gyhoeddus oni cheir cydsyniad y person sy'n berchen arno neu arni; a chaiff y cyfryw gydsyniad ei roi yn ddarostyngedig i'r cyfryw delerau ac amodau ag y caiff yn rhesymol eu gosod, ond ni ellir ei atal yn afresymol.

Use of private roads for construction

11.—(1) The undertaker may use any private road within the onshore Order limits or any private road abutting the onshore Order limits which has a junction with such a road for the passage of persons or vehicles (with or without materials, plant and machinery) for the purposes of, or in connection with, the construction, maintenance and decommissioning of the authorised works.

(2) The undertaker must compensate the person liable for the repair of a road to which paragraph (1) applies for any loss or damage which that person may suffer by reason of the exercise of the power conferred by paragraph (1).

(3) Any dispute as to a person's entitlement to compensation under paragraph (2), or as to the amount of such compensation, is to be determined under Part 1 of the 1961 Act.

Supplemental powers

Discharge of water

12.—(1) The undertaker may use any watercourse or any public sewer or drain for the drainage of water in connection with the construction, operation, maintenance or decommissioning of the authorised works and for that purpose may lay down, take up and alter pipes and may, on any land within the onshore Order limits, make openings into, and connections with, the watercourse, public sewer or drain.

(2) Any dispute arising from the exercise of the powers in paragraph (1) to connect to or use a public sewer or drain must be determined as if it were a dispute under section 106 of the Water Industry Act 1991(1).

(3) The undertaker must not discharge any water into any watercourse, public sewer or drain except with the consent of the person to whom it belongs; and such consent may be given subject to such terms and conditions as he may reasonably impose, but may not be unreasonably withheld.

(1) 1991 p. 56. Diwygiwyd adran 106 gan adrannau 35(1), 35(8) a 43(2) o Ddeddf Cystadleuaeth a Gwasanaeth (Cyfleustodau) 1992 (p. 43) ac Atodlen 2 i'r ddeddf honno, adrannau 36(2) a 99 o Ddeddf Dŵr 2003 (p. 37) a pharagraff 16(1) o Atodlen 3 i Ddeddf Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29).

(1) 1991 c. 56. Section 106 was amended by sections 35(1), 35(8) and 43(2) of, and Schedule 2 to, the Competition and Service (Utilities) Act 1992 (c. 43), sections 36(2) and 99 of the Water Act 2003 (c. 37) and paragraph 16(1) of Schedule 3 to the Flood and Water Management Act 2010 (c. 29).

(4) Rhaid i'r ymgwymerwr beidio â gwneud unrhyw agoriad i mewn i unrhyw garthffos na draen gyhoeddus ac eithrio—

- (a) yn unol â chynlluniau a gymeradwyir gan y person sy'n berchen ar y garthffos neu'r ddraen, ond ni ellir atal y cyfryw gymeradwyaeth yn afresymol; a
- (b) pan fo'r person hwnnw wedi cael cyfle i oruchwylio gwneud yr agoriad.

(5) Rhaid i'r ymgwymerwr, wrth arfer y pwerau a roddir gan yr erthygl hon, beidio â difrodi gwely na glannau unrhyw gwrs dŵr nac ymyrryd â hwy.

(6) Rhaid i'r ymgwymerwr gymryd y cyfryw gamau ag sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod unrhyw ddŵr sy'n cael ei ollwng i mewn i gwrs dŵr neu garthffos neu ddraen gyhoeddus o dan y pwerau a roddir gan yr erthygl hon mor rhydd ag y bo'n ymarferol rhag gro, pridd neu sylwedd solet arall, olew neu sylwedd mewn toddiant.

(7) Nid yw'r erthygl hon yn awdurdodi unrhyw weithgarwch ynglŷn â dŵr daear na gweithgarwch gollwng dŵr o fewn ystyr Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016(1) nac yn trechu'r gofyniad i gael trwydded o dan reoliad 12(1)(b) o'r un rheoliadau.

(8) Os bydd person sy'n cael cais am gydsyniad neu gymeradwyaeth yn methu â hysbysu'r ymgwymerwr am benderfyniad o fewn 56 diwrnod i gael cais am gydsyniad o dan baragraff (3) neu gymeradwyaeth o dan baragraff (4)(a) tybir bod y person hwnnw wedi rhoi ei gydsyniad neu wedi rhoi ei gymeradwyaeth, yn ôl y digwydd.

(9) Yn yr erthygl hon—

- (a) ystyr “carthffos neu ddraen gyhoeddus” yw carthffos neu ddraen sy'n perthyn i Cyfoeth Naturiol Cymru, bwrdd draenio mewnol, awdurdod lleol, neu ymgwymerwr carthffosiaeth; a
- (b) mae i ymadroddion eraill, heb gynnwys cyrsiau dŵr a ddefnyddir yn yr erthygl hon ac yn Neddff Adnoddau Dŵr 1991(2) yr un ystyr ag sydd yn y Ddeddf honno.

Gweithfeydd diogelu ar adeiladau

13.—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr erthygl hon, caiff yr ymgwymerwr ar ei draul ei hun gyflawni'r cyfryw weithfeydd diogelu ar unrhyw adeilad sydd o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y tir ag y barna'r ymgwymerwr yn angenrheidiol neu'n hwylus.

(4) The undertaker must not make any opening into any public sewer or drain except—

- (a) in accordance with plans approved by the person to whom the sewer or drain belongs, but such approval may not be unreasonably withheld; and
- (b) where that person has been given the opportunity to supervise the making of the opening.

(5) The undertaker must not, in the exercise of the powers conferred by this article, damage or interfere with the bed or banks of any watercourse.

(6) The undertaker must take such steps as are reasonably practicable to secure that any water discharged into a watercourse or public sewer or drain under the powers conferred by this article is as free as may be practicable from gravel, soil or other solid substance, oil or matter in suspension.

(7) This article does not authorise any groundwater activity or water discharge activity within the meaning of the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2016(1) or override the requirement for a permit under regulation 12(1)(b) of the same.

(8) If a person who receives an application for consent or approval fails to notify the undertaker of a decision within 56 days of receiving an application for consent under paragraph (3) or approval under paragraph (4)(a) that person is deemed to have granted consent or given approval, as the case may be.

(9) In this article—

- (a) “public sewer or drain” means a sewer or drain which belongs to Natural Resources Wales, an internal drainage board, a local authority, or a sewerage undertaker; and
- (b) other expressions, excluding watercourses, used both in this article and in the Water Resources Act 1991(2) have the same meaning as in that Act.

Protective works to buildings

13.—(1) Subject to the following provisions of this article, the undertaker may at its own expense carry out such protective works to any building lying within the onshore Order limits as the undertaker considers to be necessary or expedient.

(1) O.S. 2016/1154.
(2) 1991 p. 57.

(1) S.I. 2016/1154.
(2) 1991 c. 57.

(2) Caiff gweithfeydd diogelu eu cyflawni—

- (a) ar unrhyw adeg cyn neu yn ystod y gwaith adeiladu yng nghyffiniau adeiladu unrhyw ran o'r gweithfeydd awdurdodedig; neu
- (b) ar ôl cwblhau'r rhan honno o'r gweithfeydd awdurdodedig yng nghyffiniau'r adeilad ar unrhyw adeg hyd at ddiwedd y cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod yr agorwyd y rhan honno o'r gweithfeydd awdurdodedig yn gyntaf i'w defnyddio.

(3) At ddiben penderfynu sut mae'r swyddogaethau o dan yr erthygl hon yn cael eu harfer, caiff yr ymgwymerwr fynd i mewn i unrhyw adeilad sy'n dod o dan baragraff (1) ac unrhyw dir o fewn ei gwrtil a chynnal arolwg.

(4) At ddiben cyflawni gweithfeydd diogelu o dan yr erthygl hon ar adeilad, caiff yr ymgwymerwr (yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6))—

- (a) mynd i mewn i'r adeilad ac unrhyw dir o fewn ei gwrtil; a
- (b) pan na fo modd cyflawni'r gweithfeydd yn rhesymol gyfleus heb fynd ar dir sy'n gyfagos i'r adeilad ond y tu allan i'w gwrtil, fynd ar y tir cyfagos (ond nid unrhyw adeilad sydd wedi'i godi arno).

(5) Cyn arfer—

- (a) hawl o dan baragraff (1) i gyflawni gweithfeydd diogelu ar adeilad;
- (b) hawl o dan baragraff (3) i fynd i mewn i adeilad a thir o fewn ei gwrtil;
- (c) hawl o dan baragraff (4)(a) i fynd i mewn i adeilad a thir o fewn ei gwrtil; neu
- (d) hawl o dan baragraff (4)(b) i fynd ar dir,

rhaid i'r ymgwymerwr, ac eithrio mewn argyfwng, gyflwyno hysbysiad sy'n rhoi 56 diwrnod o leiaf o rybudd i berchenogion a meddianwyr yr adeilad neu'r tir am ei fwriad i arfer yr hawl honno ac, mewn achos sy'n dod o fewn is-baragraff (a) neu (c), bennu'r gweithfeydd diogelu y bwriedir eu cyflawni.

(6) Pan gyflwynir hysbysiad o dan baragraff (5)(a), (c) neu (d), caiff perchennog neu feddiannydd yr adeilad neu'r tir dan sylw, drwy gyflwyno gwrth-hysbysiad o fewn y cyfnod o 10 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad, ei gwneud yn ofynnol i'r cwestiwn ynghylch a yw'n angenrheidiol neu'n hwylus cyflawni'r gweithfeydd diogelu neu fynd i mewn i'r adeilad neu ar y tir gael ei gyfeirio at gymrodeddwr o dan erthygl 49 (cymrodeddu).

(2) Protective works may be carried out—

- (a) at any time before or during the construction in the vicinity of the building of any part of the authorised works; or
- (b) after the completion of that part of the authorised works in the vicinity of the building at any time up to the end of the period of 5 years beginning with the day on which that part of the authorised works is first opened for use.

(3) For the purpose of determining how the functions under this article are to be exercised the undertaker may enter and survey any building falling within paragraph (1) and any land within its curtilage.

(4) For the purpose of carrying out protective works under this article to a building the undertaker may (subject to paragraphs (5) and (6))—

- (a) enter the building and any land within its curtilage; and
- (b) where the works cannot be carried out reasonably conveniently without entering land which is adjacent to the building but outside its curtilage, enter the adjacent land (but not any building erected on it).

(5) Before exercising—

- (a) a right under paragraph (1) to carry out protective works to a building;
- (b) a right under paragraph (3) to enter a building and land within its curtilage;
- (c) a right under paragraph (4)(a) to enter a building and land within its curtilage; or
- (d) a right under paragraph (4)(b) to enter land,

the undertaker must, except in the case of emergency, serve on the owners and occupiers of the building or land not less than 56 days' notice of its intention to exercise that right and, in a case falling within subparagraph (a) or (c), specifying the protective works proposed to be carried out.

(6) Where a notice is served under paragraph (5)(a), (c) or (d), the owner or occupier of the building or land concerned may, by serving a counter-notice within the period of 10 days beginning with the day on which the notice was served, require the question whether it is necessary or expedient to carry out the protective works or to enter the building or land to be referred to arbitration under article 49 (arbitration).

(7) Rhaid i'r ymgwymerwr ddigolledu perchenogion a meddianwyr unrhyw adeilad neu dir y mae'r pwerau a roddir gan yr erthygl hon wedi cael eu harfer mewn perthynas â hwy am unrhyw golled neu ddifrod a achosir iddynt drwy arfer y pwerau hynny.

(8) Pan—

- (a) fo gweithfeydd diogelu yn cael eu cyflawni o dan yr erthygl hon ar adeilad; ac
- (b) o fewn cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod yr agorwyd y rhan o'r gweithfeydd awdurdodedig a adeiladwyd yng nghyffiniau'r adeilad yn gyntaf i'w defnyddio ymddengys bod y gweithfeydd awdurdodedig yn annigonol i ddiogelu'r adeilad rhag difrod a achosir gan y gweithrediad adeiladu neu gynnal a chadw'r rhan honno o'r gweithfeydd awdurdodedig,

rhaid i'r ymgwymerwr ddigolledu perchenogion a meddianwyr yr adeilad am golled neu ddifrod a ddioddefwyd ganddynt.

(9) Heb ragfarnu erthygl 48 (dim adennill dwbl) nid oes dim yn yr erthygl hon yn rhyddhau'r ymgwymerwr rhag unrhyw atebolrwydd i dalu digollediad o dan adran 10(2)(1) o Ddeddf 1965.

(10) Rhaid i unrhyw ddigollediad sy'n daladwy o dan baragraff (7) neu (8) gael ei benderfynu, yn achos anghydfod, o dan Ran 1 o Ddeddf 1961.

(11) Yn yr erthygl hon, ystyr "gweithfeydd diogelu" mewn perthynas ag adeilad yw—

- (a) tanategu, atgyfnerthu ac unrhyw weithfeydd eraill a wneir er mwyn atal difrod a all gael ei achosi i'r adeilad oherwydd adeiladu, cynnal a chadw neu weithredu'r gweithfeydd awdurdodedig; ac
- (b) unrhyw weithfeydd a wneir er mwyn unioni unrhyw ddifrod a achoswyd i'r adeilad oherwydd adeiladu, cynnal a chadw neu weithredu'r gweithfeydd awdurdodedig.

Pŵer i arolygu ac ymchwilio i dir

14.—(1) Caiff yr ymgwymerwr at ddibenion y Gorchymyn hwn—

- (a) arolygu unrhyw dir a ddangosir o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y tir neu y gall y gweithfeydd awdurdodedig effeithio arno neu ymchwilio iddo;

(7) The undertaker must compensate the owners and occupiers of any building or land in relation to which the powers conferred by this article have been exercised for any loss or damage arising to them by reason of the exercise of those powers.

(8) Where—

- (a) protective works are carried out under this article to a building; and
- (b) within the period of 5 years beginning with the day on which the part of the authorised works constructed in the vicinity of the building is first opened for use it appears that the protective works are inadequate to protect the building against damage caused by the construction operation or maintenance of that part of the authorised works,

the undertaker must compensate the owners and occupiers of the building for any loss or damage sustained by them.

(9) Without prejudice to article 48 (no double recovery) nothing in this article relieves the undertaker from any liability to pay compensation under section 10(2)(1) of the 1965 Act.

(10) Any compensation payable under paragraph (7) or (8) must be determined, in case of dispute, under Part 1 of the 1961 Act.

(11) In this article "protective works" in relation to a building means—

- (a) underpinning, strengthening and any other works the purpose of which is to prevent damage which may be caused to the building by the construction, maintenance or operation of the authorised works; and
- (b) any works the purpose of which is to remedy any damage which has been caused to the building by the construction, maintenance or operation of the authorised works.

Power to survey and investigate land

14.—(1) The undertaker may for the purposes of this Order—

- (a) survey or investigate any land shown within the onshore Order limits or which may be affected by the authorised works;

(1) Diwygiwyd adran 10 drwy adran 4 o Ddeddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) 1990 (p. 11) a pharagraff 13(2) o Atodlen 2 i'r ddeddf honno ac O.S. 2009/1307.

(1) Section 10 was amended by section 4 of, and paragraph 13(2) of Schedule 2 to, the Planning (Consequential Provisions) Act 1990 (c. 11) and S.I. 2009/1307.

- (b) heb ragfarnu cyffredinolrwydd is-baragraff (a), gwneud tyllau treialu yn y cyfryw leoliadau ag y gwêl yr ymgwymerwr yn dda ar y tir er mwyn ymchwilio i natur haen yr arwyneb a'r is-bridd a thynnu samplau o bridd;
- (c) heb ragfarnu cyffredinolrwydd paragraff (a), cynnal ymchwiliadau ecolegol neu archaeolegol ar y cyfryw dir;
- (d) gosod cyfarpar i'w ddefnyddio mewn cysylltiad ag arolygu ac ymchwilio i'r tir a gwneud tyllau treialu ar y tir, ei adael ar y tir neu ei dynnu ymaith; ac
- (e) mynd ar y tir at ddiben arfer y pwerau a roddir gan is-baragraffau (a) i (d).

(2) Ni chaniateir mynd ar dir na gosod cyfarpar arno, ei adael arno na'i dynnu ymaith o dan baragraff (1), oni hysbysir pob perchennog ar y tir a phob meddiannydd o leiaf 7 diwrnod ymlaen llaw a bod y cyfryw hysbysiad yn cynnwys hysbysu'r derbynnydd am ei hawl i gael ei ddigolledu o dan baragraff (13).

(3) Os yw'r ymgwymerwr yn bwriadu gwneud unrhyw un o'r canlynol, rhaid i'r hysbysiad gynnwys manylion am yr hyn a fwriedir—

- (a) chwilio, turio neu gloddio;
- (b) gadael cyfarpar ar dir;
- (c) cymryd samplau;
- (d) arolwg o'r awyr; ac
- (e) cyflawni unrhyw weithgareddau eraill a all fod yn ofynnol er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth â'r offerynnau a grybwyllir ym mharagraff (4).

(4) Yr offerynnau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3)(e) yw—

- (a) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017(1); neu
- (b) Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017(2).

(5) Mewn perthyn ag unrhyw berson sy'n mynd ar dir o dan yr erthygl hon ar ran yr ymgwymerwr—

- (a) mae'n rhaid iddo, os gofynnir iddo wneud hynny, cyn neu ar ôl mynd ar y tir ddangos tystiolaeth ysgrifenedig o'i awdurdod i wneud hynny gan gynnwys unrhyw warant a roddir o dan baragraff (6); a

- (b) without prejudice to the generality of sub-paragraph (a), make trial holes in such positions as the undertaker thinks fit on the land to investigate the nature of the surface layer and subsoil and remove soil samples;
- (c) without prejudice to the generality of paragraph (a), carry out ecological or archaeological investigations on such land;
- (d) place on, leave on and remove from the land apparatus for use in connection with the survey and investigation of land and making of trial holes; and
- (e) enter on the land for the purpose of exercising the powers conferred by sub-paragraphs (a) to (d).

(2) No land may be entered or equipment placed or left on or removed from the land under paragraph (1), unless at least 7 days' notice has been served on every owner and occupier of the land such notice to include notice of the recipient's right to compensation under paragraph (13).

(3) If the undertaker proposes to do any of the following, the notice must include details of what is proposed—

- (a) searching, boring or excavating;
- (b) leaving apparatus on land;
- (c) taking samples;
- (d) an aerial survey; and
- (e) carrying out any other activities that may be required to facilitate compliance with the instruments mentioned in paragraph (4).

(4) The instruments referred to in paragraph (3)(e) are—

- (a) The Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (Wales) Regulations 2017;
- (b) The Conservation of Habitats and Species Regulations 2017.

(5) Any person entering land under this article on behalf of the undertaker—

- (a) must, if so required, before or after entering the land produce written evidence of his authority to do so including any warrant issued under paragraph (6); and

(1) O.S. 2017/567 (Cy. 136).

(2) O.S. 2017/1012.

(b) ni chaniateir iddo ddefnyddio grym oni bai bod ynad heddwch wedi rhoi gwariant o dan baragraff (6).

(6) Caiff ynad heddwch roi gwarant sy'n awdurdodi person i ddefnyddio grym wrth arfer y pŵer a roddwyd gan yr erthygl hon os yw wedi'i fodloni—

(a) bod person arall wedi atal neu'n debygol o atal arfer y pŵer hwnnw; a

(b) ei bod yn rhesymol defnyddio grym wrth arfer y pŵer hwnnw.

(7) Mae'r grym y gellir ei awdurdodi drwy warant wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n rhesymol angenrheidiol.

(8) Rhaid i warant sy'n awdurdodi'r person i ddefnyddio grym bennu nifer yr achlysuron y gall yr ymgymerwr ddibynnu ar y warant wrth fynd ar dir, ei arolygu neu ei brisio.

(9) Rhaid mai'r nifer a bennwyd yw'r nifer y mae'r ynad heddwch yn barnu ei fod yn briodol er mwyn cyflawni'r diben y mae'n ofynnol mynd ar dir a'i arolygu neu ei brisio ar ei gyfer.

(10) Rhaid i unrhyw dystiolaeth mewn achos cyfreithiol i gael gwarant o dan yr erthygl hon gael ei rhoi ar lw.

(11) Ni chaniateir gwneud unrhyw dyllau treialu o dan yr erthygl hon—

(a) mewn cerbyttfordd neu droedffordd heb gydsyniad yr awdurdod priffyrdd; neu

(b) mewn stryd breifat heb gydsyniad yr awdurdod strydoedd,

ond ni chaniateir atal y cyfryw gydsyniad yn afresymol.

(12) Os bydd awdurdod priffyrdd neu awdurdod strydoedd y cyflwynir cais am gydsyniad iddo yn methu â hysbysu'r ymgymerwr am ei benderfyniad o fewn 56 diwrnod i gael y cais am gydsyniad—

(a) o dan baragraff (11)(a) yn achos awdurdod priffyrdd; neu

(b) o dan baragraff (11)(b) yn achos awdurdod strydoedd;

tybir bod yr awdurdod hwnnw wedi rhoi cydsyniad.

(13) Rhaid i'r ymgymerwr ddigolledu perchenogion a meddianwyr y tir am unrhyw golled neu ddifrod sy'n codi drwy arfer y pwerau a roddir gan yr erthygl hon, y penderfynir ar y cyfryw ddigollediad, yn achos anghydfod, o dan Ran 1 o Ddeddf 1961.

(14) Mae paragraffau (1) i (13) yn gymwys mewn perthynas â thir y Goron, fodd bynnag dim ond os oes person wedi cael caniatâd yr awdurdod priodol y caiff arfer y pŵer a roddir gan baragraff (1) mewn perthynas â thir y Goron.

(b) may not use force unless a justice of the peace has issued a warrant under paragraph (6).

(6) A justice of the peace may issue a warrant authorising a person to use force in the exercise of the power conferred by this article if satisfied—

(a) that another person has prevented or is likely to prevent the exercise of that power; and

(b) that it is reasonable to use force in the exercise of that power.

(7) The force that may be authorised by a warrant is limited to that which is reasonably necessary.

(8) A warrant authorising the person to use force must specify the number of occasions on which the undertaker can rely on the warrant when entering and surveying or valuing land.

(9) The number specified must be the number which the justice of the peace considers appropriate to achieve the purpose for which the entry and survey or valuation are required.

(10) Any evidence in proceedings for a warrant under this article must be given on oath.

(11) No trial holes may be made under this article—

(a) in a carriageway or footway without the consent of the highway authority; or

(b) in a private street without the consent of the street authority,

but such consent may not be unreasonably withheld.

(12) If either a highway authority or a street authority which receives an application for consent fails to notify the undertaker of its decision within 56 days of receiving the application for consent—

(a) under paragraph (11)(a) in the case of a highway authority; or

(b) under paragraph (11)(b) in the case of a street authority,

that authority is deemed to have granted consent.

(13) The undertaker must compensate the owners and occupiers of the land for any loss or damage arising by reason of the exercise of the powers conferred by this article, such compensation to be determined, in case of dispute, under Part 1 of the 1961 Act.

(14) Paragraphs (1) to (13) apply in relation to Crown land, however a person may only exercise the power conferred by paragraph (1) in relation to Crown land if the person has the permission of the appropriate authority.

Arbediad Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

15. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn yn dileu'r angen i gael trwydded forol o dan Ran 4 o Ddeddf 2009 nac i gydymffurfio ag amodau unrhyw drwydded forol.

Pŵer i garthu

16.—(1) Caiff yr ymgymerwr, at ddibenion adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw, ailbweru a datgomisiynu'r gweithfeydd llanwol o bryd i'w gilydd ddyfnhau, carthu, sgwrio, glanhau, newid a gwella cymaint o wely, glannau a sianeli'r tir o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y môr ag sy'n cyffinio â'r gweithfeydd awdurdodedig neu sy'n agos i'r gweithfeydd awdurdodedig a chaiff ddefnyddio, meddiannu neu waredu'r deunyddiau (heblaw am longdrylliad o fewn ystyr Rhan 9 o Ddeddf Llongau Masnach 1995(1)) sydd o bryd i'w gilydd yn cael eu carthu ganddo.

(2) Ni chaniateir gosod na dyddodi'r cyfryw ddeunyddiau yn groes i ddarpariaethau unrhyw ddeddfiad mewn perthynas â gwaredu gwastraff neu sgil gynhyrchion a garthwyd.

Darpariaeth rhag perygl i fordwyo

17.—(1) Os bydd gwaith llanwol neu unrhyw ran ohono heb gynnwys amlygu ceblau yn cael ei ddifrodi neu ei ddinistrio neu os bydd yn dirywio, rhaid i'r ymgymerwr, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a heb fod yn hwyrach na 24 awr ar ôl i'r ymgymerwr ddod yn ymwybodol o unrhyw gyfryw ddifrodi, dinistrio neu ddirywio, hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru, Trinity House, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Swyddfa Hydrograffig y Deyrnas Unedig a Gwasanaeth Gwybodaeth Kingfisher am Bysgod y Môr a gosod y cyfryw fwiau, arddangos y cyfryw oleuadau a chymryd y cyfryw gamau sy'n atal perygl i fordwyo ag a gyfarwyddir gan Trinity House o bryd i'w gilydd.

(2) Os bydd ceblau yn cael eu hamlygu ar wely'r môr neu uwchlaw gwely'r môr, rhaid i'r ymgymerwr o fewn tridiau ar ôl nodi bod ceblau wedi cael eu hamlygu o bosibl, hysbysu morwyr drwy gyhoeddi hysbysiad i forwyr a thrwy hysbysu Gwasanaeth Gwybodaeth Kingfisher am Bysgod y Môr am leoliad a graddau'r amlygiad a rhaid rhoi copi o bob hysbysiad i Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Trinity House a Swyddfa Hydrograffig y Deyrnas Unedig o fewn pum diwrnod.

Saving for Marine and Coastal Access Act 2009

15. No provision of this Order obviates the need to obtain a marine licence under Part 4 of the 2009 Act or to comply with the conditions of any marine licence.

Power to dredge

16.—(1) The undertaker may, for the purposes of constructing, operating, maintaining, repowering and decommissioning the tidal works from time to time deepen, dredge, scour, cleanse, alter and improve so much of the bed, shores and channels of the land within the offshore Order limits as adjoin or are near to the authorised works and may use, appropriate or dispose of the materials (other than wreck within the meaning of Part 9 of the Merchant Shipping Act 1995(1)) from time to time dredged by it.

(2) No such materials are to be laid down or deposited in contravention of the provisions of any enactment as respects the disposal of waste or dredged arisings.

Provision against danger to navigation

17.—(1) In case of damage to, or destruction or decay of, a tidal work or any part thereof excluding the exposure of cables, the undertaker must, as soon as reasonably practicable and no later than 24 hours following the undertaker becoming aware of any such damage, destruction or decay, notify Natural Resources Wales, Trinity House, the Maritime and Coastguard Agency, the United Kingdom Hydrographic Office and the Kingfisher Information Service of Seafish and lay down such buoys, exhibit such lights and take other such steps for preventing danger to navigation as Trinity House may from time to time direct.

(2) In case of exposure of cables on or above the seabed, the undertaker must within three days following identification of a potential cable exposure, notify mariners by issuing a notice to mariners and by informing the Kingfisher Information Service of Seafish of the location and extent of exposure. Copies of all notices must be provided to the Natural Resources Wales, the Maritime and Coastguard Agency, Trinity House, and the United Kingdom Hydrographic office within five days.

(1) 1995 p. 21.

(1) 1995 c. 21.

Atal gweithfeydd llanwol a adawyd neu a ddinistriwyd

18.—(1) Pan fo gwaith llanwol yn cael ei adael, neu pan fo'n dirywio, caiff Gweinidogion Cymru drwy hysbysiad ysgrifenedig ei gwneud yn ofynnol i'r ymgwymerwr ar ei draul ei hun naill ai atgyweirio ac adfer y gwaith hwnnw neu unrhyw ran ohono, neu waredu'r gwaith hwnnw ac adfer y safle i'w gyflwr priodol, i'r cyfryw raddau ac o fewn y cyfryw derfynau ag yr ystyria Gweinidogion Cymru yn briodol.

(2) Pan fo gwaith sy'n cynnwys gwaith llanwol yn rhannol a gweithfeydd ar neu dros y tir uwchlaw penllanw cymedrig y gorllanw yn rhannol yn cael ei adael neu'n dirywio a bod y rhan honno o'r gwaith ar neu dros dir uwchlaw penllanw cymedrig y gorllanw yn y cyfryw gyflwr ag sy'n ymyrryd â'r hawl i fordwyo neu hawliau cyhoeddus eraill dros y blaendraeth neu sy'n achosi pryder rhesymol y caiff ymyrryd â'r cyfryw hawliau, caiff Gweinidogion Cymru gynnwys y rhan honno o'r gwaith, neu unrhyw ddarn ohono, mewn unrhyw hysbysiad o dan yr erthygl hon.

(3) Os bydd yr ymgwymerwr yn methu â chydymffurfio mewn unrhyw ffordd â hysbysiad a gyflwynir o dan yr erthygl hon o fewn y cyfnod o 30 diwrnod sy'n dechrau ar y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad, caiff Gweinidogion Cymru gymryd pa gamau bynnag ag y bydd Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol i sicrhau'r canlyniad sy'n ofynnol o dan yr hysbysiad; ac mae unrhyw wariant y mae Gweinidogion Cymru yn mynd iddo yn adenilladwy oddi wrth yr ymgwymerwr.

Arolwg o weithfeydd llanwol

19.—(1) Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn hwylus gwneud hynny, caiff Gweinidogion Cymru orchymyn arolwg ac archwiliad o waith llanwol neu'r safle y bwriedir adeiladu neu ailbweru'r gwaith arno, a bydd unrhyw wariant y mae Gweinidogion Cymru yn mynd iddo'n rhesymol mewn unrhyw gyfryw arolwg ac archwiliad yn adenilladwy oddi wrth yr ymgwymerwr.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ni chaniateir gorchymyn y cyfryw arolygon fwy nag unwaith y flwyddyn; a chyn gorchymyn y cyfryw arolwg—

- (a) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r ymgwymerwr er mwyn cadarnhau pa wybodaeth berthnasol o arolygon sydd eisoes ar gael; a
- (b) rhoi cyfle i ymgwymerwr gynnal yr arolwg ei hun.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys mewn argyfwng.

Abatement of tidal works abandoned or destroyed

18.—(1) Where a tidal work is abandoned, or falls into decay, the Welsh Ministers may by notice in writing require the undertaker at its own expense either to repair and restore that work or any part, or to remove that work and restore the site to its proper condition, to such an extent and within such limits as the Welsh Ministers think proper.

31.—(1) The undertaker must pay to the owners, occupiers or persons otherwise having a proprietary right of fishing injuriously affected by the construction, operation, maintenance or decommissioning of the authorised works, or otherwise by the exercise of the powers conferred on the undertaker by this Order, compensation for any damage sustained by such persons by reason of the construction, operation, maintenance or decommissioning or the exercise of the powers.

(2) Compensation under paragraph (1) must be determined, in case of dispute, under Part 1 of the 1961 Act.

Compensation

Disregard of certain interests and improvements

32.—(1) In assessing the compensation payable to any person on the acquisition from that person of any land under this Order, the tribunal must not take into account—

- (a) any interest in land; or
- (b) any enhancement of the value of any interest in land by reason of any building erected, works executed or improvement or alteration made on relevant land,

if the tribunal is satisfied that the creation of the interest, the erection of the building, the execution of the works or the making of the improvement or alteration was not reasonably necessary and was undertaken with a view to obtaining compensation or increased compensation.

(2) In paragraph (1) “relevant land” means the land acquired from the person concerned or any other land with which that person is, or was at the time when the building was erected, the works executed or the improvement or alteration made, directly or indirectly concerned.

Set-off for enhancement in value of retained land

33.—(1) In assessing the compensation payable to any person in respect of the acquisition from that person under this Order of any land (including the subsoil) the tribunal must set off against the value of the land so acquired any increase in value of any contiguous or adjacent land belonging to that person in the same capacity which will accrue to that person by reason of the construction of the authorised works.

(2) Wrth asesu'r digollediad sy'n daladwy i unrhyw berson mewn perthynas â chaffael unrhyw hawliau newydd dros dir (gan gynnwys yr is-bridd) oddi wrth y person hwnnw o dan erthygl 23 (pŵer i gaffael hawliau newydd a gosod cyfamodau cyfyngol), rhaid i'r tribiwnlys wrthgyfrif yn erbyn gwerth yr hawliau a gaffaelwyd felly—

- (a) unrhyw gynnydd yng ngwerth y tir y mae'r hawliau newydd drosto'n ofynnol; a
- (b) unrhyw gynnydd yng ngwerth unrhyw dir cyffiniol neu gyfagos sy'n eiddo i'r person hwnnw yn yr un rhinwedd,

a fydd yn cronni iddo drwy adeiladu'r gweithfeydd awdurdodedig.

(3) Mae Deddf 1961 yn cael effaith, yn ddarostyngedig i baragraffau (1) a (2), fel pe bai'r Gorchymyn hwn yn ddeddfiad lleol at ddibenion y Ddeddf honno.

Atodol

Pŵer i drechu hawddfreintiau a hawliau eraill

34.—(1) Mae unrhyw weithgarwch awdurdodedig sy'n digwydd ar dir o fewn terfynau'r Gorchymyn ar yr tir (p'un a gynhelir y gweithgarwch gan yr ymgwymerwr, neu gan unrhyw berson sy'n deillio teitl gan yr ymgwymerwr neu gan gontractwyr, gweision neu asiantau'r ymgwymerwr) wedi'i awdurdodi gan y Gorchymyn hwn os y'i gwneir yn unol â thelerau'r Gorchymyn hwn, er ei fod yn cynnwys—

- (a) ymyrraeth â diddordeb neu hawl y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo neu iddi; neu
- (b) torri cyfyngiad ynglŷn â'r defnydd o dir sy'n codi yn rhinwedd contract.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr “gweithgarwch awdurdodedig” yw—

- (a) adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw neu ddatgomisiynu unrhyw ran o'r gweithfeydd awdurdodedig;
- (b) arfer unrhyw bŵer a awdurdodir gan y Gorchymyn hwn; neu
- (c) ddefnyddio unrhyw dir (gan gynnwys defnyddio tir dros dro).

(3) Mae'r buddiannau a'r hawliau y mae'r erthygl hon yn gymwys iddynt yn cynnwys unrhyw hawddfrait, rhyddid, braint, hawl neu fantais a atodir i dir ac sy'n effeithio'n andwyol ar dir arall, gan gynnwys unrhyw hawl naturiol i gymorth; ac yn cynnwys cyfyngiadau ynglŷn â'r defnydd o dir sy'n codi yn rhinwedd contract.

(2) In assessing the compensation payable to any person in respect of the acquisition from that person of any new rights over land (including the subsoil) under article 23 (power to acquire new rights and impose restrictive covenants), the tribunal must set off against the value of the rights so acquired—

- (a) any increase in the value of the land over which the new rights are required; and
- (b) any increase in value of any contiguous or adjacent land belonging to that person in the same capacity,

which will accrue to him by reason of the construction of the authorised works.

(3) The 1961 Act has effect, subject to paragraphs (1) and (2), as if this Order were a local enactment for the purposes of that Act.

Supplementary

Power to override easements and other rights

34.—(1) Any authorised activity which takes place on land within the onshore Order limits (whether the activity is undertaken by the undertaker, or by any person deriving title from the undertaker or by any contractors, servants or agents of the undertaker) is authorised by this Order if it is done in accordance with the terms of this Order, notwithstanding that it involves—

- (a) an interference with an interest or right to which this article applies; or
- (b) a breach of a restriction as to the user of land arising by virtue of a contract.

(2) In this article “authorised activity” means—

- (a) the construction, operation, maintenance or decommissioning of any part of the authorised works;
- (b) the exercise of any power authorised by this Order; or
- (c) the use of any land (including the temporary use of land).

(3) The interests and rights to which this article applies include any easement, liberty, privilege, right or advantage annexed to land and adversely affecting other land, including any natural right to support; and include restrictions as to the user of land arising by the virtue of a contract.

(4) Pan fo unrhyw fuddiant, hawl neu gyfyngiad yn cael ei drechu neu ei threchu gan baragraff (1), mae digollediad—

- (a) yn daladwy o dan adran 7 (mesur digollediad yn achos gwahanu tir) neu adran 10 (darpariaeth bellach ynglŷn â digolledu am effeithiad andwyo) o Ddeddf 1965; a
- (b) i'w asesu yn yr un modd ac yn ddarostyngedig i'r un rheolau ag yn achos digolledu arall o dan yr adrannau hynny—
 - (i) pan fo'r digollediad i'w amcangyfrif mewn cysylltiad â phryniant o dan y Ddeddf honno; neu
 - (ii) pan fo'r niwed yn codi o gwblhau gweithfeydd ar y tir a gaffaelwyd o dan y Ddeddf honno neu o ddefnyddio'r cyfryw dir.

(5) Pan fo person sy'n deillio teitl o dan yr ymgymerwr a gaffaelodd y tir dan sylw—

- (a) yn atebol i dalu digollediad yn rhinwedd paragraff (4); a
- (b) yn methu â chyflawni'r atebolrwydd hwnnw; mae'r atebolrwydd yn orfodadwy yn erbyn yr ymgymerwr.

(6) Nid oes dim yn yr erthygl hon i'w ddehongli fel pe bai'n awdurdodi unrhyw weithred neu anwaith ar ran unrhyw berson sy'n agored i gyfraith drwy achos cyfreithiol unrhyw berson ar unrhyw seiliau heblaw am y cyfryw ymyrraeth neu'r tor cyfyngiad a grybwyllir ym mharagraff (1).

Hawliau preifat dros dir

35.—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r erthygl hon, diddymir pob hawl tramwy breifat dros dir sy'n cael ei gaffael yn orfodol o dan y Gorchymyn hwn—

- (a) o'r dyddiad y mae'r ymgymerwr yn caffael y tir, boed hynny'n orfodol neu drwy gytundeb; neu
- (b) ar y dyddiad y mae'r ymgymerwr yn mynd ar y tir o dan adran 11(1) (pwerau mynediad) o Ddeddf 1965,

pa un bynnag sydd gynharaf.

(4) Where any interest, right or restriction is overridden by paragraph (1), compensation—

- (a) is payable under section 7 (measure of compensation in case of severance) or section 10 (further provision as to compensation for injurious affection) of the 1965 Act; and
- (b) is to be assessed in the same manner and subject to the same rules as in the case of other compensation under those sections where—
 - (i) the compensation is to be estimated in connection with a purchase under that Act; or
 - (ii) the injury arises from the execution of works on or use of land acquired under that Act.

(5) Where a person deriving title under the undertaker by whom the land in question was acquired—

- (a) is liable to pay compensation by virtue of paragraph (4); and
 - (b) fails to discharge that liability,
- the liability is enforceable against the undertaker.

(6) Nothing in this article is to be construed as authorising any act or omission on the part of any person that is actionable at the suit of any person on any grounds other than such an interference or breach as mentioned in paragraph (1).

Private rights over land

35.—(1) Subject to the provisions of this article, all private rights of way over land subject to compulsory acquisition under this Order are extinguished—

- (a) from the date of acquisition of the land by the undertaker, whether compulsorily or by agreement; or
- (b) on the date of entry on the land by the undertaker under section 11(1) (powers of entry) of the 1965 Act,

whichever is the sooner.

(1) Diwygiwyd adran 11 gan adran 34(1) o Ddeddf Caffael Tir 1981 (p. 67) ac Atodlen 4 i'r ddeddf honno, adran 3 o Ddeddf Tai (Darpariaethau Canlyniadol) 1985 (p. 71) a Rhan 1 o Atodlen 1 i'r ddeddf honno, adran 14 o Fesurau Eglwys Loegr (Darpariaethau Amrywiol) 2006 (Rhif 1) a pharagraff 12(1) o Atodlen 5 i'r mesur hwnnw, adrannau 186(2), 187(2) a 188 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 (p. 22) a pharagraff 6 o Atodlen 14 a pharagraff 3 o Atodlen 16 i'r ddeddf honno ac O.S. 2009/1307.

(1) Section 11 was amended by section 34(1) of, and Schedule 4 to, the Acquisition of Land Act 1981 (c. 67), section 3 of, and Part 1 of Schedule 1 to, the Housing (Consequential Provisions) Act 1985 (c. 71), section 14 of, and paragraph 12(1) of Schedule 5 to the Church of England (Miscellaneous Provisions) Measures 2006 (No. 1), sections 186(2), 187(2) and 188 of, and paragraph 6 of Schedule 14 and paragraph 3 of Schedule 16, to the Housing and Planning Act 2016 (c. 22) and S.I. 2009/1307.

(2) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r erthygl hon, diddymir pob hawl breifat dros dir sy'n ddarostyngedig i gaffael hawliau'n orfodol neu osod cyfamodau cyfyngol o dan y Gorchymyn hwn i'r graddau y byddai parhad y cyfryw hawliau preifat yn anghyson ag arfer hawl neu fyrdwn y cyfamod cyfyngol—

- (a) o'r dyddiad y caffaelir hawl neu fuddiant y cyfamod cyfyngol sy'n cael ei osod o blaid yr ymgwymerwr, boed hynny'n orfodol neu drwy gytundeb;
- (b) ar y dyddiad y mae'r ymgwymerwr yn mynd ar y tir o dan adran 11(1) o Ddeddf 1965; neu
- (c) ar adeg cychwyn unrhyw weithgarwch a awdurdodir gan y Gorchymyn sy'n ymyrryd â'r hawliau hynny sy'n eu torri,

pa un bynnag sydd gynharaf.

(3) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r erthygl hon, mae pob hawl breifat dros dir y mae'r ymgwymerwr yn ei feddiannu dros dro o dan y Gorchymyn hwn yn cael ei hatal a byddant yn anorfodadwy cyhyd ag y bo'r ymgwymerwr yn parhau i feddiannu'r tir yn gyfreithlon.

(4) Mae gan unrhyw berson sy'n dioddef colled oherwydd diddymu neu atal unrhyw hawl breifat neu oherwydd gosod unrhyw gyfamod cyfyngol o dan yr erthygl hon yr hawl i gael digollediad, i'w benderfynu, yn achos anghydfod, o dan Ran 1 (penderfynu ar gwestiynau sy'n ymwneud â digolledu y mae anghydfod yn ei gylch) o Ddeddf 1961.

(5) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw hawl y mae adran 271 neu 272 (diddymu hawliau ymgwymerwyr statudol etc.) o Ddeddf 1990(1) yn gymwys iddi.

(6) Mae paragraffau (1) i (3) yn cael effaith yn ddarostyngedig i—

- (a) unrhyw hysbysiad a roddir gan yr ymgwymerwr cyn—
 - (i) cwblhau caffael y tir neu gaffael yr hawliau neu osod cyfamodau cyfyngol dros y tir neu sy'n effeithio ar y tir;
 - (ii) i'r ymgwymerwr ei feddiannu;
 - (iii) i'r ymgwymerwr fynd arno; neu
 - (iv) i'r ymgwymerwr ei feddiannu dros dro,

nad oes unrhyw un na phob un o'r paragraffau hynny yn gymwys i unrhyw hawl tramwy a bennir yn yr hysbysiad; nac

(2) Subject to the provisions of this article, all private rights over land subject to the compulsory acquisition of rights or the imposition of restrictive covenants under this Order are extinguished in so far as their continuance would be inconsistent with the exercise of the right or burden of the restrictive covenant—

- (a) from the date of the acquisition of the right or the benefit of the restrictive covenant being imposed in favour of the undertaker, whether compulsorily or by agreement;
- (b) on the date of entry onto the land by the undertaker under section 11(1) of the 1965 Act; or
- (c) on the commencement of any activity authorised by the Order which interferes with or breaches those rights,

whichever is the earlier.

(3) Subject to the provisions of this article, all private rights over land of which the undertaker takes temporary possession under this Order are suspended and unenforceable for as long as the undertaker remains in lawful possession of the land.

(4) Any person who suffers loss by the extinguishment or suspension of any private right or by the imposition of any restrictive covenant under this article is entitled to compensation, to be determined, in case of dispute, under Part 1 (determination of questions of disputed compensation) of the 1961 Act.

(5) This article does not apply in relation to any right to which section 271 or 272 (extinguishment of rights of statutory undertakers etc.) of the 1990 Act(1) applies.

(6) Paragraphs (1) to (3) have effect subject to—

- (a) any notice given by the undertaker before—
 - (i) the completion of the acquisition of the land or the acquisition of the rights or the imposition of restrictive covenants over or affecting the land;
 - (ii) the undertaker's appropriation of it;
 - (iii) the undertaker's entry on to it; or
 - (iv) the undertaker's taking temporary possession of it,

that any or all of those paragraphs do not apply to any right of way specified in the notice; and

(1) Diwygiwyd adran 272 gan baragraff 103(1) a (2) o Atodlen 17 i Ddeddf Cyfathrebu 2003 (p. 21).

(1) Section 272 was amended by paragraph 103(1) and (2) of Schedule 17 to the Communications Act 2003 (c. 21).

- (b) unrhyw gytundeb a wneir ar unrhyw adeg rhwng yr ymgwymerwr a'r person y mae'r hawl tramwy dan sylw wedi'i breinio ynddo neu'n perthyn iddo.

(7) Os yw'r cyfryw gytundeb ag y cyfeirir ato ym mharagraff (6)(b)—

- (a) yn cael ei wneud â pherson y mae'r hawl tramwy wedi'i breinio ynddo neu'n perthyn iddo; ac
- (b) yn cael ei fynegi i gael effaith hefyd er budd y rhai sy'n deillio teitl gan neu o dan y person hwnnw.

mae'n effeithiol mewn cysylltiad â'r personau sy'n deillio teitl felly, p'un a oedd y teitl yn deillio cyn neu ar ôl gwneud y cytundeb.

(8) Mae cyfeiriadau yn yr erthygl hon at hawliau preifat dros dir yn cynnwys unrhyw hawl tramwy, ymddiriedolaeth, nodwedd, hawddfraint, rhyddid, braint, hawl neu fantais a atodir i dir ac sy'n effeithio'n andwyol ar dir arall, gan gynnwys unrhyw hawl naturiol i gymorth; ac yn cynnwys cyfyngiadau ynghylch y defnydd o dir sy'n codi yn rhinwedd contract, cytundeb neu ymgwymeriad sy'n cael yr effaith honno.

Terfyn amser ar gyfer arfer pwerau caffael

36.—(1) Ar ôl diwedd y cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r Gorchymyn hwn i rym—

- (a) ni ellir cyflwyno unrhyw hysbysiad i drafod telerau o dan Ran 1 o Ddeddf 1965 fel y'i cymhwysir at gaffael tir gan erthygl 24 (cymhwyso Rhan 1 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965); a
- (b) ni ellir gweithredu unrhyw ddatganiad o dan adran 4 o Ddeddf 1981 fel y'i cymhwysir gan erthygl 25 (Cymhwyso Deddf 1981).

(2) Mae'r pwerau a roddir gan erthygl 28 (defnyddio tir dros dro ar gyfer adeiladu gweithfeydd) yn peidio ar ddiwedd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (1), ac eithrio nad oes dim yn y paragraff hwn yn atal yr ymgwymerwr rhag parhau i feddiannu tir ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw, os aethpwyd ar y tir a'i feddiannu cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

- (b) any agreement made at any time between the undertaker and the person in or to whom the right of way in question is vested or belongs.

(7) If any such agreement as is referred to in paragraph (6)(b)—

- (a) is made with a person in or to whom the right of way is vested or belongs; and
- (b) is expressed to have effect also for the benefit of those deriving title from or under that person,

it is effective in respect of the persons so deriving title, whether the title was derived before or after the making of the agreement.

(8) References in this article to private rights over land include any right of way, trust, incident, easement, liberty, privilege, right or advantage annexed to land and adversely affecting other land, including any natural right to support; and include restrictions as to the user of land arising by virtue of a contract, agreement or undertaking having that effect.

Time limit for exercise of powers of acquisition

36.—(1) After the end of the period of 5 years beginning with the day on which this Order comes into force—

- (a) no notice to treat may be served under Part 1 of the 1965 Act as applied to the acquisition of land by article 24 (application of Part 1 of the Compulsory Purchase 1965 Act); and
- (b) no declaration may be executed under section 4 of the 1981 Act as applied by article 25 (application of the 1981 Act).

(2) The powers conferred by article 28 (temporary use of land for construction of works) cease at the end of the period referred to in paragraph (1), save that nothing in this paragraph prevents the undertaker remaining in possession of land after the end of that period, if the land was entered and possession of it was taken before the end of that period.

RHAN 4

Amrywiol a Chyffredinol

Datgymhwysio darpariaethau deddfwriaethol

37.—(1) Nid yw darpariaethau adran 36 o Ddeddf Trydan 1989(1) yn gymwys mewn perthynas â'r gweithfeydd awdurdodedig.

(2) Nid yw darpariaethau adran 23 o Ddeddf Draenio Tir 1991(2) yn gymwys mewn perthynas â'r gweithfeydd awdurdodedig.

Amddiffyniad i achosion cyfreithiol mewn cysylltiad â niwsans statudol

38.—(1) Pan fo achos cyfreithiol yn cael ei ddwyn o dan adran 82(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(3) (achos cyfreithiol diannod gan berson sydd wedi cael ei dramgwyddo gan niwsans statudol) mewn perthynas â niwsans sy'n dod o fewn adran 79(1) (d), (e), (fb), (g), (ga) neu (h) o'r Ddeddf honno(4), nid oes unrhyw orchymyn i'w wneud, ac nid oes unrhyw ddirwy i'w gosod, o dan adran 82(2) o'r Ddeddf honno os yw'r amddiffynnydd yn dangos bod y niwsans—

- (a) yn ymwneud â safle a ddefnyddir gan yr ymgymwrwr at ddibenion adeiladu a chynnal y gweithfeydd awdurdodedig ac mewn cysylltiad â hynny ac y gellir ei briodoli i gyflawni'r gweithfeydd awdurdodedig yn unol â hysbysiad a gyflwynir o dan adran 60 (rheoli sŵn ar safle adeiladu), neu gydsyniad a roddir o dan adran 61(5) (cydsyniad ymlaen llaw ar gyfer gwaith ar safle adeiladu), o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974(6);

PART 4

Miscellaneous and General

Disapplication of legislative provisions

37.—(1) The provisions of section 36 of the Electricity Act 1989(1) do not apply in relation to the authorised works.

(2) The provisions of section 23 of the Land Drainage Act 1991(2) do not apply in relation to the authorised works.

Defence to proceedings in respect of statutory nuisance

38.—(1) Where proceedings are brought under section 82(1) of the Environmental Protection Act 1990(3) (summary proceedings by person aggrieved by statutory nuisance) in relation to a nuisance falling within section 79(1) (d), (e), (fb), (g), (ga) or (h) of that Act(4), no order is to be made, and no fine is to be imposed, under section 82(2) of that Act if the defendant shows that the nuisance—

- (a) relates to premises used by the undertaker for the purposes of or in connection with the construction maintenance of the authorised works and is attributable to the carrying out of the authorised works in accordance with a notice served under section 60 (control of noise on construction site), or a consent given under section 61(5) (prior consent for work on construction site), of the Control of Pollution Act 1974(6);

(1) 1989 p. 29.

(2) 1991 p. 59.

(3) 1990 p. 43. Diwygiwyd adran 82 gan adran 5 o Ddeddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993 (p. 40), paragraff 6 o Atodlen 17 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25), adran 103(1), (4) a (5) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a Deddf yr Amgylchedd 2005 (p. 16) ac O.S. 2015/664.

(4) Diwygiwyd adran 79(1) gan adran 2(2) o Ddeddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993, adran 120 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a pharagraff 2(a) o Atodlen 17 a pharagraff 89(2) o Atodlen 22 i'r ddeddf honno, adrannau 101(2) a 102(2) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (p. 16) ac adrannau 109(2), 110(2), 111(2) a 112(2)(a) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd etc (yr Alban) 2008 (dsa.8).

(5) Diwygiwyd adran 61 gan Atodlen 7 i Ddeddf Adeiladu 1984 (p. 55), paragraff 15(3) o Atodlen 15 i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p. 43), Atodlen 24 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25) a pharagraff 10 o Atodlen 6 i Ddeddf Adeiladu (yr Alban) 2003 (dsa.8).

(6) 1974 p. 40.

(1) 1989 c. 29.

(2) 1991 c. 59.

(3) 1990 c. 43. Section 82 was amended by section 5 of the Noise and Statutory Nuisance Act 1993 (c. 40), paragraph 6 of Schedule 17 to the Environment Act 1995 (c. 25), section 103(1), (4) and (5) of the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 (c. 16) and S.I. 2015/664.

(4) Section 79(1) was amended by section 2(2) of the Noise and Statutory Nuisance Act 1993, section 120 of, and paragraph 2(a) of Schedule 17 and paragraph 89(2) of Schedule 22 to, the Environment Act 1995, sections 101(2) and 102(2) of the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 (c. 16) and sections 109(2), 110(2), 111(2) and 112(2)(a) of the Public Health etc. (Scotland) Act 2008 (asp. 8).

(5) Section 61 was amended by Schedule 7 to the Building Act 1984 (c. 55), paragraph 15(3) of Schedule 15 to the Environmental Protection Act 1990 (c. 43), Schedule 24 to the Environment Act 1995 (c. 25) and paragraph 10 of Schedule 6 to the Building (Scotland) Act 2003 (asp. 8).

(6) 1974 c. 40.

- (b) o ganlyniad i adeiladu, cynnal a chadw neu ddatgomisiynu'r gweithfeydd awdurdodedig ac na ellir yn rhesymol ei osgoi;
- (c) yn ymwneud â safle a ddefnyddir gan yr ymgymerwr at ddibenion y gweithfeydd awdurdodedig neu mewn cysylltiad â'u defnyddio a gellir ei briodoli i'r defnydd o'r gweithfeydd awdurdodedig yn unol â chynllun monitro sŵn y cytunir arno â'r awdurdod cynllunio yn unol ag un o amodau'r caniatâd cynllunio tybiedig; neu
- (d) o ganlyniad i'r defnydd o'r gweithfeydd awdurdodedig ac na ellir yn rhesymol ei osgoi;

(2) Nid yw adran 61(9) o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 (cydsyniad ar gyfer gwaith ar safle i gynnwys datganiad nad yw ynddo'i hun yn gyfystyr ag amddiffyniad i achos cyfreithiol o dan adran 82 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) yn gymwys pan fo'r cydsyniad yn ymwneud â'r defnydd o'r safle gan yr ymgymerwr at ddibenion adeiladu neu gynnal a chadw'r gweithfeydd awdurdodedig neu mewn cysylltiad â hynny.

Caniatâd cynllunio a materion atodol

39.—(1) Mewn perthynas â chymhwysio paragraff 3(c) o'r Ail Atodlen i Ffurff Gorchymyn Diogelu Coed a nodwyd yn yr Atodlen i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Diogelu Coed) 1969(1) (gan gynnwys y paragraff hwnnw fel y'i cymhwyswyd gan reoliad 3(ii) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Diogelu Coed) (Diwygio) a (Coed Mewn Ardaloedd Cadwraeth) (Achosion Eithriedig) 1975(2), neu fel y'i hymgorfforwyd mewn unrhyw orchymyn diogelu coed), trinnir unrhyw gyfarwyddyd o dan adran 90(2A) o Ddeddf 1990 sy'n tybio bod caniatâd cynllunio wedi cael ei roi mewn perthynas â gweithfeydd a awdurdodir gan y Gorchymyn hwn fel un sy'n tybio bod caniatâd wedi cael ei roi ar gais a wneir o dan Ran 3 o'r Ddeddf honno at ddibenion y Rhan honno.

- (b) is a consequence of the construction, maintenance or decommissioning of the authorised works and cannot reasonably be avoided;
- (c) relates to premises used by the undertaker for the purposes of or in connection with the use of the authorised works and is attributable to the use of the authorised works in accordance with a noise monitoring scheme agreed with the planning authority pursuant to a condition of the deemed planning permission; or
- (d) is a consequence of the use of the authorised works and cannot reasonably be avoided.

(2) Section 61(9) of the Control of Pollution Act 1974 (consent for work on construction site to include statement that it does not of itself constitute a defence to proceedings under section 82 of the Environmental Protection Act 1990) does not apply where the consent relates to the use of premises by the undertaker for the purposes of or in connection with the construction or maintenance of the authorised works.

Planning permission and supplementary matters

39.—(1) In relation to the application of paragraph 3(c) of the Second Schedule of the Form of Tree Preservation Order set out in the Schedule to the Town and Country Planning (Tree Preservation Order) Regulations 1969(1) (including that paragraph as applied by regulation 3(ii) of the Town and Country Planning (Tree Preservation Order) (Amendment) and (Trees in Conservation Areas) (Exempted Cases) Regulations 1975(2), or as incorporated in any tree preservation order), any direction under section 90(2A) of the 1990 Act deeming planning permission to be granted in relation to works authorised by this Order is treated as deeming the permission to have been granted on application made under Part 3 of that Act for the purposes of that Part.

(1) O.S. 1969/17 (Noder bod y rhain wedi cael ei dirymu).
 (2) O.S. 1975/148.

(1) S.I. 1969/17 (Note these have been revoked).
 (2) S.I. 1975/148.

(2) Mewn perthynas â chymhwyso erthygl 5(1)(d) o Ffurf Gorchymyn Diogelu Coed a nodwyd yn yr Atodlen i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999(1) fel y'i hymgorfforwyd mewn unrhyw orchymyn diogelu coed neu sy'n cael effaith yn rhinwedd rheoliad 10(1)(a) o'r Rheoliadau hynny, ni fydd unrhyw gyfarwyddyd o dan adran 90(2A) o Ddeddf 1990 sy'n tybio bod caniatâd cynllunio wedi cael ei roi mewn perthynas â gweithfeydd a awdurdodir gan y Gorchymyn hwn yn cael ei drin fel caniatâd cynllunio amlinellol.

(3) Mae caniatâd cynllunio y bernir ei fod wedi cael ei roi gan gyfarwyddyd o dan adran 90(2A)(2) o Ddeddf 1990 mewn perthynas â gweithfeydd a awdurdodir gan y Gorchymyn hwn i'w drin fel caniatâd cynllunio penodol at ddibenion adran 264(3)(a) o'r Ddeddf honno (achosion lle mae tir i'w drin fel pe bai'n dir gweithredol at ddibenion y Ddeddf honno).

Pŵer i docio coed sy'n gorhongian dros y gweithfeydd awdurdodedig a gwaredu gwrychoedd

40.—(1) Caiff yr ymgymerwr gwympto neu docio unrhyw goeden neu llwyn ger unrhyw ran o'r gweithfeydd awdurdodedig, neu dorri ei gwreiddiau yn ôl, os cred yn rhesymol ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn atal y goeden neu'r llwyn rhag rhwystro neu ymyrryd ag adeiladu, cynnal a chadw, gweithredu neu ddatgomisiynu'r gweithfeydd awdurdodedig neu unrhyw gyfarpar a ddefnyddir ar y gweithfeydd awdurdodedig.

(2) Drwy arfer pwerau paragraff (1), rhaid i'r ymgymerwr beidio â gwneud unrhyw ddifrod diangen i unrhyw goeden na llwyn a rhaid iddo ddigolledu unrhyw berson am unrhyw golled neu ddifrod sy'n codi o arfer y pwerau hynny.

(3) Rhaid i unrhyw anghydfod ynglŷn â hawl person i gael ei ddigolledu o dan baragraff (2), neu ynglŷn â swm y cyfryw ddigollediad, gael ei benderfynu o dan Ran 1 o Ddeddf 1961.

(4) Caiff yr ymgymerwr waredu unrhyw wrychoedd o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y tir y mae'n ofynnol eu gwaredu at ddibenion cyflawni'r gweithfeydd awdurdodedig.

(2) In relation to the application of article 5(1)(d) of the Form of Tree Preservation Order set out in the Schedule to the Town and Country Planning (Trees) Regulations 1999(1) as incorporated in any tree preservation order or as having effect by virtue of regulation 10(1)(a) of those Regulations, any direction under section 90(2A) of the 1990 Act deeming planning permission to be granted in relation to works authorised by this Order is not to be treated as an outline planning permission.

(3) Planning permission which is deemed by a direction under section 90(2A)(2) of the 1990 Act to be granted in relation to works authorised by this Order is to be treated as specific planning permission for the purposes of section 264(3)(a) of that Act (cases in which land is to be treated as operational land for the purposes of that Act).

Power to lop trees overhanging the authorised works and removal of hedgerows

40.—(1) The undertaker may fell or lop any tree or shrub near any part of the authorised works, or cut back its roots, if it reasonably believes it to be necessary to do so to prevent the tree or shrub from obstructing or interfering with the construction, maintenance, operation or decommissioning of the authorised works or any apparatus used on the authorised works.

(2) In exercising the powers of paragraph (1), the undertaker must not do any unnecessary damage to any tree or shrub and must pay compensation to any person for any loss or damage arising from the exercise of those powers.

(3) Any dispute as to a person's entitlement to compensation under paragraph (2), or as to the amount of compensation, must be determined under Part 1 of the 1961 Act.

(4) The undertaker may remove any hedgerows within the onshore Order limits that may be required to be removed for the purposes of carrying out the authorised works.

(1) O.S. 1999/1892.

(2) Mewnosodwyd adran 90(2A) gan adran 16(1) o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 (p. 42).

(1) S.I. 1999/1892.

(2) Section 90(2A) was inserted by section 16(1) of the Transport and Works Act 1992 (c. 42).

Cymhwyso cyfraith landlord a thenant

41.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i—

- (a) unrhyw gytundeb ar gyfer prydlesu'r gweithfeydd awdurdodedig cyfan neu unrhyw ran ohonynt neu'r hawl i'w gweithredu i unrhyw berson; a
- (b) unrhyw gytundeb y mae'r ymgymwr yn ymrwymo iddo ag unrhyw berson ar gyfer adeiladu, cynnal a chadw, gweithredu, ailbweru a datgomisiynu'r gweithfeydd awdurdodedig, neu unrhyw ran ohonynt;

i'r graddau y mae unrhyw gyfryw gytundeb yn ymwneud â'r telerau y mae unrhyw dir sy'n destun prydles a roddir gan neu o dan y cytundeb hwnnw i'w ddarparu at ddefnydd y person hwnnw.

(2) Nid oes unrhyw ddeddfiad na rheol gyfreithiol sy'n rheoleiddio hawliau a rhwymedigaethau landlordiaid a thenantiaid yn lleihau effaith gweithrediad unrhyw gytundeb y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo.

(3) Yn unol â hynny, nid oes unrhyw gyfryw ddeddfiad na rheol gyfreithiol yn gymwys mewn perthynas â hawliau a rhwymedigaethau'r partion mewn unrhyw brydles a roddir gan neu o dan unrhyw gyfryw gytundeb er mwyn—

- (a) eithrio unrhyw un o hawliau a rhwymedigaethau'r partion hynny o dan delerau'r brydles na'u haddasu mewn unrhyw ffordd, boed hynny mewn cysylltiad â therfynu'r denantiaeth neu unrhyw fater arall;
- (b) rhoi neu osod unrhyw gyfryw hawl neu rwymedigaeth i unrhyw gyfryw barti sy'n codi o unrhyw beth sy'n cael ei wneud neu ei hepgor ar neu mewn perthynas â thir sy'n ddarostyngedig i'r brydles neu mewn cysylltiad â hynny, yn ychwanegol at unrhyw gyfryw hawl neu rwymedigaeth y darperir ar ei chyfer gan delerau'r brydles; neu
- (c) cyfyngu ar orfodi (boed hynny drwy achos cyfreithiol am iawndal neu fel arall) gan unrhyw barti yn y brydles unrhyw rwymedigaeth gan unrhyw barti arall o dan y brydles.

Rhwystro adeiladu gweithfeydd awdurdodedig

42. Mae unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol—

- (a) yn rhwystro unrhyw berson sy'n gweithredu o dan awdurdod yr ymgymwr wrth adeiladu, cynnal a chadw, gweithredu, ailbweru neu ddatgomisiynu unrhyw waith awdurdodedig; neu

Application of landlord and tenant law

41.—(1) This article applies to—

- (a) any agreement for leasing to any person the whole or any part of the authorised works or the right to operate the same; and
- (b) any agreement entered into by the undertaker with any person for the construction, maintenance, operation, repowering and decommissioning of the authorised works, or any part of them;

so far as any such agreement relates to the terms on which any land which is the subject of a lease granted by or under that agreement is to be provided for that person's use.

(2) No enactment or rule of law regulating the rights and obligations of landlords and tenants prejudices the operation of any agreement to which this article applies.

(3) Accordingly, no such enactment or rule of law applies in relation to the rights and obligations of the parties to any lease granted by or under any such agreement so as to—

- (a) exclude or in any respect modify any of the rights and obligations of those parties under the terms of the lease, whether with respect to the termination of the tenancy or any other matter;
- (b) confer or impose on any such party any right or obligation arising out of or connected with anything done or omitted on or in relation to land which is the subject of the lease, in addition to any such right or obligation provided for by the terms of the lease; or
- (c) restrict the enforcement (whether by action for damages or otherwise) by any party to the lease of any obligation of any other party under the lease.

Obstruction of construction of authorised works

42. Any person who, without reasonable excuse—

- (a) obstructs any person acting under the authority of the undertaker in constructing, maintaining, operating, repowering or decommissioning of any authorised work; or

- (b) yn ymyrryd ag unrhyw gyfarpar sy'n eiddo i unrhyw berson sy'n gweithredu o dan awdurdod yr ymgwymerwr, yn ei dynnu ymaith neu'n ei waredu,

yn euog o drosedd ac, ar ôl euogfarn ddiannod, yn agored i dalu dirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Parthau diogelwch ar gyfer mordwyo, treillrwydo ac angori

43.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad ag adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw, ailbweru a datgomiynu unrhyw weithfeydd llanwol gyflwyno hysbysiad neu hysbysïadau sy'n datgan bod yr ardaloedd a ddisgrifir yn yr hysbysiad yn barthau diogelwch.

(2) Bydd unrhyw geisiadau a wneir gan yr ymgwymerwr am barth diogelwch yn cynnwys asesiad risg mordwyol wedi'i ddiweddarau.

(3) Bydd adrannau 95 i 98 o Ddeddf 2004 a Rheoliadau 2007 yn gymwys i gais o dan baragraffau (2) a'r datganiad a gweithrediad parthau diogelwch o dan baragraff (1).

(4) Yn yr erthygl hon, mae i "parthau diogelwch" yr un ystyr â "safety zones" ym Mhennod 2 o Ddeddf 2004.

Ymgwymerwyr statudol a darpariaethau diogelu etc

44. Mae Atodlen 10 (darpariaethau sy'n ymwneud ag ymgwymerwyr statudol a darpariaethau diogelu etc) yn cael effaith.

Diogelu buddiannau

45. Mae Atodlen 11 (darpariaethau diogelu) yn cael effaith.

Ardystio planiau etc

46. Rhaid i'r ymgwymerwr, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud, gyflwyno copïau o'r datganiad amgylcheddol, y cyfeirlyfr, planiau'r gweithfeydd alltraeth, planiau'r tir, y strategaeth gwella bioamrywiaeth forol amlinellol, y trawsluniau a phlan yr ardal gyfyngedig i Weinidogion Cymru i ardystio eu bod, yn y drefn honno, yn gopïau cywir o'r datganiad amgylcheddol, y cyfeirlyfr, planiau'r gweithfeydd alltraeth, planiau'r tir, y strategaeth gwella bioamrywiaeth forol amlinellol, y trawsluniau a phlan yr ardal gyfyngedig y cyfeirir atynt yn y Gorchymyn hwn; ac mae dogfen a ardystir felly yn dderbyniadwy mewn unrhyw achos cyfreithiol fel tystiolaeth o gynnwys y ddogfen y mae'n gopi ohoni.

- (b) interferes with, moves or removes any apparatus belonging to any person acting under the authority of the undertaker,

is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

Safety zones for navigation, trawling and anchoring

43.—(1) The Welsh Ministers may in connection with the construction, operation, maintenance, repowering and decommissioning of any tidal works issue a notice or notices declaring that the areas described in the notice are to be safety zones.

(2) Any applications made by the Undertaker for a safety zone shall include an updated navigational risk assessment.

(3) Sections 95 to 98 of the 2004 Act and the 2007 Regulations shall apply to an application under paragraphs (2) and the declaration and operation of safety zones under paragraph (1).

(4) In this Article "safety zones" has the same meaning as in Chapter 2 of the 2004 Act.

Statutory undertakers and protective provisions etc

44. Schedule 10 (provisions relating to statutory undertakers and protective provisions etc) has effect.

Protection of interests

45. Schedule 11 (protective provisions) has effect.

Certification of plans etc

46. The undertaker must, as soon as practicable after the making of this Order, submit copies of the environmental statement, book of reference, the offshore works plans, the onshore plans, the outline marine biodiversity enhancement strategy, the sections and the restricted area plan to the Welsh Ministers for certification that they are, respectively, true copies of the environmental statement, book of reference, the offshore works plans, the onshore plans, the outline marine biodiversity enhancement strategy, the sections and the restricted area plan referred to in this Order; and a document so certified is admissible in any proceedings as evidence of the contents of the document of which it is a copy.

Cyflwyno hysbysiadau

47.—(1) Caiff hysbysiad neu ddogfen arall y mae'n ofynnol ei gyflwyno neu ei chyflwyno neu yr awdurdodwyd ei gyflwyno neu ei chyflwyno at ddibenion y Gorchymyn hwn ei gyflwyno neu ei chyflwyno—

- (a) drwy'r post; neu
- (b) gyda chydysyniad y derbynnydd ac yn ddarostyngedig i baragraffau (6) i (8) drwy ddarlledu electronig.

(2) Pan fo'r person y mae hysbysiad neu ddogfen arall i'w gyflwyno neu i'w chyflwyno iddo at ddibenion y Gorchymyn hwn yn gorff corfforaethol, cyflwynir yr hysbysiad neu'r ddogfen yn briodol os y'i cyflwynir i ysgrifennydd neu glerc y corff hwnnw.

(3) At ddibenion adran 13 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019(1) fel y mae'n gymwys at ddibenion yr erthygl hon, cyfeiriad priodol unrhyw berson mewn perthynas â chyflwyno hysbysiad neu ddogfen iddo o dan baragraff (1), os yw wedi rhoi cyfeiriad cyflwyno, yw'r cyfeiriad hwnnw, ac fel arall—

- (a) yn achos ysgrifennydd neu glerc corff corfforaethol, swyddfa gofrestrdig neu brif swyddfa'r corff hwnnw; a
- (b) mewn unrhyw achos arall, ei gyfeiriad hysbys diwethaf ar adeg cyflwyno.

(4) Pan fo'n ofynnol at ddibenion y Gorchymyn hwn gyflwyno hysbysiad neu ddogfen arall i berson am fod ganddo fuddiant mewn tir, neu fel meddiannydd y tir, neu pan awdurdodir hynny, ac ni ellir cadarnhau ei enw na'i gyfeiriad ar ôl ymholiadau rhesymol, caiff yr hysbysiad ei gyflwyno drwy—

- (a) ei gyfeirio ato yn ôl enw neu yn ôl y disgrifiad o "perchennog", neu yn ôl y digwydd "meddiannydd", y tir (sy'n ei ddisgrifio); a
- (b) naill ai ei adael yn nwylo'r person sydd neu sy'n ymddangos ei fod yn preswyllo neu'n cael ei gyflogi ar y tir neu ei adael wedi'i osod mewn man amlwg ar ryw adeilad neu wrthrych ar neu ger y tir.

(5) Pan fo hysbysiad neu ddogfen arall y mae'n ofynnol ei gyflwyno neu ei chyflwyno neu ei (h)anfon drwy ddarlledu electronig, tybir bod y gofyniad wedi'i fodloni pan fo derbynnydd yr hysbysiad neu ddogfen arall i'w (d)darlledu wedi cydsynio i'r defnydd o ddarlledu electronig naill ai'n ysgrifenedig neu drwy ddarlledu electronig.

Service of notices

47.—(1) A notice or other document required or authorised to be served for the purposes of this Order may be served—

- (a) by post; or
- (b) with the consent of the recipient and subject to paragraphs (6) to (8) by electronic transmission.

(2) Where the person on whom a notice or other document to be served for the purposes of this Order is a body corporate, the notice or document is duly served if it is served on the secretary or clerk of that body.

(3) For the purposes of section 13 of the Legislation (Wales) Act 2019(1) as it applies for the purposes of this article, the proper address of any person in relation to the service on him of a notice or document under paragraph (1) is, if he has given an address for service, that address, and otherwise—

- (a) in the case of the secretary or clerk of a body corporate, the registered or principal office of that body; and
- (b) in any other case, his last known address at the time of service.

(4) Where for the purposes of this Order a notice or other document is required or authorised to be served on a person as having any interest in, or as the occupier of, land and his name or address cannot be ascertained after reasonable enquiry, the notice may be served by—

- (a) addressing it to him by name or by the description of "owner", or as the case may be "occupier", of the land (describing it); and
- (b) either leaving it in the hands of a person who is or appears to be resident or employed on the land or leaving it conspicuously affixed to some building or object on or near the land.

(5) Where a notice or other document required to be served or sent for the purposes of this Order is served or sent by electronic transmission the requirement is taken to be fulfilled where the recipient of the notice or other document to be transmitted has given his consent to the use of electronic transmission either in writing or by electronic transmission.

(1) 2019 anaw 4.

(1) 2019 anaw 4.

(6) Pan fo derbynnydd hysbysiad neu ddogfen arall a gyflwynwyd neu a anfonwyd drwy ddarlledu electronig yn hysbysu'r anfonwr o fewn 7 diwrnod i'w (d)derbyn bod arno angen copi papur o'r holl hysbysiad hwnnw neu'r ddogfen arall honno neu unrhyw ran ohono neu ohoni, rhaid i'r anfonwr ddarparu'r cyfryw gopi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(7) Caiff person ddirymu ei gydsyniad i'r defnydd o ddarlledu electronig yn unol â pharagraff (8).

(8) Pan na fydd person yn barod i dderbyn y defnydd o ddarlledu trosglwyddo at unrhyw un o ddibenion y Gorchymyn hwn mwyach—

- (a) rhaid iddo roi hysbysiad yn ysgrifenedig neu drwy ddarlledu electronig yn dirymu unrhyw gydsyniad a roddir ganddo at y diben hwnnw; a
- (b) bydd y cyfryw ddirymiad yn derfynol a bydd yn weithredol ar ddyddiad a bennir gan y person yn yr hysbysiad ond ni chaiff y dyddiad hwnnw fod yn llai na 7 diwrnod ar ôl y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad.

(9) Ni thbyir bod yr erthygl hon yn eithrio defnyddio unrhyw ddull o gyflwyno nad yw'n darparu ar ei gyfer yn benodol.

Dim adennill dwbl

48. Ni fydd digollediad yn daladwy mewn perthynas â'r un mater o dan y Gorchymyn hwn nac o dan unrhyw ddeddfiad arall, unrhyw gontract nac unrhyw reol gyfreithiol.

Cymrodeddu

49.—(1) Mae unrhyw wahaniaeth o dan unrhyw un o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, oni ddarperir fel arall ar ei gyfer, i'w gyfeirio at un cymrodeddwr y cytunir arno gan y partïon, neu os ydynt yn methu â chytuno, i'w benodi ar gais y naill barti neu'r llall (ar ôl cyflwyno hysbysiad yn ysgrifenedig i'r llall) gan Lywydd Sefydliad y Peirianwyr Sifil a'i ddatrys ganddo.

(2) Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd unrhyw fater y mae'n ofynnol cael cydsyniad neu gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, neu sy'n ddarostyngedig i bwerau gwneud cyfarwyddyd Trinity House, o dan unrhyw un o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, yn ddarostyngedig i gymrodeddu.

Arbediad ar gyfer Trinity House

50. Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn yn lleihau effaith unrhyw un o hawliau, dyletswyddau neu freintiau Trinity House nac yn eu rhanddirymu.

(6) Where the recipient of a notice or other document served or sent by electronic transmission notifies the sender within 7 days of receipt that he requires a paper copy of all or any part of that notice or other document the sender must provide such a copy as soon as reasonably practicable.

(7) A person may revoke his consent to the use of electronic transmission in accordance with paragraph (8).

(8) Where a person is no longer willing to accept the use of electronic transmission for any of the purposes of this Order—

- (a) he must give notice in writing or by electronic transmission revoking any consent given by him for that purpose; and
- (b) such revocation will be final and will take effect on a date specified by the person in the notice but that date may not be less than 7 days after the date on which the notice is given.

(9) This article is not to be taken to exclude the employment of any method of service not expressly provided for by it.

No double recovery

48. Compensation will not be payable in respect of the same matter both under this Order and under any other enactment, any contract or any rule of law.

Arbitration

49.—(1) Any difference under any provision of this Order, unless otherwise provided for, is to be referred to and settled by a single arbitrator to be agreed between the parties or, failing agreement, to be appointed on the application of either party (after giving notice in writing to the other) by the President of the Institution of Civil Engineers.

(2) For the avoidance of doubt, any matter for which the consent or approval of the Welsh Ministers is required, or which is subject to the direction making powers of Trinity House, under any provision of this Order shall not be subject to arbitration.

Saving for Trinity House

50. Nothing in this Order prejudices or derogates from any of the rights, duties or privileges of Trinity House.

Deddf Cynllunio Cymdogaeth 2017

51. Nid yw darpariaethau Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Cynllunio Cymdogaeth 2017(1) yn gymwys o ran y Gorchymyn hwn.

The Neighbourhood Planning Act 2017

51. The provisions of Chapter 1 of Part 2 of the Neighbourhood Planning Act 2017(1) do not apply as regards this Order.

Julie James

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weiniogion
Cymru
17 Rhagfyr 2021

Minister for Climate Change, one of the Welsh
Ministers
17 December 2021

(1) 2017 p. 20.

(1) 2017 c. 20.

RHAN 1

Gweithfeydd Awdurdodedig

Gwaith Rhif 1

Gorsaf gynhyrchu llanwol alltraeth sydd â chapasiti trydanol gros i gynhyrchu hyd at 240 megawat o fewn ardal yr araeau sy'n cynnwys:

(1) hyd at 620 o ddyfeisiau llanwol ar unrhyw un adeg benodol sy'n cynnwys

5.—(1) If, in the exercise of the powers conferred by this Order, the undertaker acquires any interest in any land in which any apparatus is placed, that apparatus must not be removed under this Part, and any right of a utility undertaker to maintain that apparatus in that land must not be extinguished, until alternative apparatus has been constructed and is in operation to the reasonable satisfaction of the utility undertaker in question.

(2) If, for the purpose of executing any works in, on or under any land purchased, held, appropriated or used under this Order, the undertaker requires the removal of any apparatus placed in that land, it must give to the utility undertaker in question written notice of that requirement, together with a plan and section of the work proposed and of the proposed position of the alternative apparatus to be provided or constructed; and in that case (or if in consequence of the exercise of any of the powers conferred by this Order a utility undertaker reasonably needs to remove any of its apparatus) the undertaker must, subject to sub-paragraph (3) afford to the utility undertaker the necessary facilities and rights for the construction of alternative apparatus in other land of the undertaker and subsequently for the maintenance of that apparatus.

(3) If alternative apparatus or any part of such apparatus is to be constructed elsewhere than in other land of the undertaker, or the undertaker is unable to afford such facilities and rights as are mentioned in sub-paragraph (2) in the land in which the alternative apparatus or part of such apparatus is to be constructed, the utility undertaker in question must, on receipt of a written notice to that effect from the undertaker, as soon as reasonably possible use its best endeavours to obtain the necessary facilities and rights in the land in which the alternative apparatus is to be constructed.

(4) Rhaid i unrhyw gyfarpar amgen sydd i'w adeiladu yn nhir yr ymgymerwr o dan y Rhan hon gael ei adeiladu yn y cyfryw fodd ac yn y cyfryw linell neu leoliad ag y cytunir arnynt rhwng yr ymgymerwr cyfleustod dan sylw a'r ymgymerwr neu, yn niffyg cytundeb, ag y'u setlir drwy gymrodeddu yn unol ag erthygl 49 (cymrodeddu).

(5) Rhaid i'r ymgymerwr cyfleustod dan sylw, ar ôl cytuno ar y cyfarpar amgen sydd i'w ddarparu neu i'w adeiladu neu ei setlo drwy gymrodeddu yn unol ag erthygl 49 (cymrodeddu), ac ar ôl rhoi i'r ymgymerwr cyfleustod unrhyw gyfryw gyfleusterau a hawliau ag y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2) neu (3), heb oedi diangen ddechrau adeiladu a gweithredu'r cyfarpar amgen ac wedyn dynnu ymaith unrhyw gyfarpar y mae'n ofynnol gan yr ymgymerwr ei dynnu ymaith o dan ddarpariaethau'r Rhan hon.

(6) Er gwaethaf is-baragraff (5), os yw'r ymgymerwr yn rhoi hysbysiad yn ysgrifenedig i'r ymgymerwr cyfleustod dan sylw ei fod yn dymuno cwblhau ei hun unrhyw waith, neu ran o unrhyw waith mewn cysylltiad ag adeiladu neu dynnu ymaith gyfarpar mewn unrhyw dir sy'n eiddo i'r ymgymerwr, rhaid i'r gwaith hwnnw, yn lle cael ei gwblhau gan yr ymgymerwr cyfleustod, gael ei gwblhau gan yr ymgymerwr heb oedi diangen o dan oruchwyliaeth yr ymgymerwr cyfleustod, os y'i rhoddir, ac er boddhad rhesymol yr ymgymerwr cyfleustod.

(7) Nid oes dim yn is-baragraff (6) yn awdurdodi'r ymgymerwr i gwblhau lleoli, gosod, sadio, gwasgu, tynnu, cysylltu neu ddatgysylltu unrhyw gyfarpar, neu gwblhau unrhyw lenwi o amgylch y cyfarpar (pan fo'r cyfarpar yn cael ei osod mewn ffos) o fewn 300 milimetr i'r cyfarpar.

6.—(1) Pan fo'r ymgymerwr yn rhoi i ymgymerwr cyfleustod, yn unol â'r Rhan hon, gyfleusterau a hawliau i adeiladu a chynnal a chadw cyfarpar amgen yn nhir yr ymgymerwr yn lle'r cyfarpar sydd i'w dynnu ymaith, rhaid i'r cyfleusterau a'r hawliau hynny gael eu rhoi ar y cyfryw delerau ac amodau ag y cytunir arnynt rhwng yr ymgymerwr a'r ymgymerwr cyfleustod dan sylw neu, yn niffyg cytundeb, ag y'u setlir drwy gymrodeddu yn unol ag erthygl 49 (cymrodeddu).

(2) Wrth setlo'r telerau ac amodau hynny mewn cysylltiad â'r cyfarpar amgen sydd i'w adeiladu yn neu ar hyd y prosiect awdurdodedig, rhaid i'r cymrodeddwr—

- (a) gweithredu pob un o ofynion rhesymol yr ymgymerwr o ran sicrhau diogelwch a gweithrediad effeithlon y prosiect awdurdodedig a sicrhau unrhyw newidiadau neu addasiadau canlyniadol i'r cyfarpar amgen ag sy'n ofynnol er mwyn atal ymyriadau â gweithfeydd awdurdodedig yr ymgymerwr; a

(4) Any alternative apparatus to be constructed in land of the undertaker under this Part must be constructed in such manner and in such line or situation as may be agreed between the utility undertaker in question and the undertaker or in default of agreement settled by arbitration in accordance with article 49 (arbitration).

(5) The utility undertaker in question must, after the alternative apparatus to be provided or constructed has been agreed or settled by arbitration in accordance with article 49 (arbitration), and after the grant to the utility undertaker of any such facilities and rights as are referred to in sub-paragraph (2) or (3), proceed without unnecessary delay to construct and bring into operation the alternative apparatus and subsequently to remove any apparatus required by the undertaker to be removed under the provisions of this Part.

(6) Despite sub-paragraph (5), if the undertaker gives notice in writing to the utility undertaker in question that it desires itself to execute any work, or part of any work in connection with the construction or removal of apparatus in any land of the undertaker, that work, instead of being executed by the utility undertaker, must be executed by the undertaker without unnecessary delay under the superintendence, if given, and to the reasonable satisfaction, of the utility undertaker.

(7) Nothing in sub-paragraph (6) authorises the undertaker to execute the placing, installation, bedding, packing, removal, connection or disconnection of any apparatus, or execute any filling around the apparatus (where the apparatus is laid in a trench), within 300 millimetres of the apparatus.

6.—(1) Where, in accordance with this Part, the undertaker affords to a utility undertaker facilities and rights for the construction and maintenance in land of the undertaker of alternative apparatus in substitution for apparatus to be removed, those facilities and rights must be granted on such terms and conditions as may be agreed between the undertaker and the utility undertaker in question or in default of agreement settled by arbitration in accordance with article 49 (arbitration).

(2) In settling those terms and conditions in respect of alternative apparatus to be constructed in or along the authorised project, the arbitrator must—

- (a) give effect to all reasonable requirements of the undertaker for ensuring the safety and efficient operation of the authorised project and for securing any subsequent alterations or adaptations of the alternative apparatus that may be required to prevent interference with any proposed works of the undertaker; and

(b) i'r graddau y mae'n rhesymol ac yn ymarferol gwneud hynny o dan amgylchiadau'r achos penodol, weithredu telerau ac amodau, os o gwbl, sy'n gymwys i'r cyfarpar a adeiladwyd yn neu ar hyd y prosiect awdurdodedig y mae'r cyfarpar amgen i'w roi yn ei le.

(3) Os yw'r cyfleusterau a'r hawliau sydd i'w rhoi gan yr ymgwymerwr mewn cysylltiad ag unrhyw gyfarpar amgen, a'r telerau ac amodau y mae'r cyfleusterau a'r hawliau hynny i'w rhoi yn ddarostyngedig iddynt, ym marn y cymrodeddwr, yn llai ffafriol ar y cyfan i'r ymgwymerwr cyfleustod dan sylw na'r cyfleusterau a'r hawliau y mae'n eu mwynhau mewn cysylltiad â'r cyfarpar sydd i'w dynnu ymaith a'r telerau ac amodau y mae'r cyfleusterau a'r hawliau hynny yn ddarostyngedig iddynt, rhaid i'r cymrodeddwr wneud y cyfryw ddarpariaeth i'r ymgwymerwr ddigolledu'r ymgwymerwr cyfleustod ag yr ymddengys yn rhesymol i'r cymrodeddwr wedi iddo roi sylw i holl amgylchiadau'r achos penodol.

7.—(1) Heb fod yn llai na 28 diwrnod cyn dechrau ar unrhyw weithfeydd o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 5(2) sydd wrth ymyl unrhyw gyfarpar nad yw'r ymgwymerwr wedi'i gwneud yn ofynnol ei dynnu ymaith o dan yr is-baragraff hwnnw, neu a fydd yn effeithio neu a all effeithio ar y cyfryw gyfarpar, rhaid i'r ymgwymerwr gyflwyno i'r ymgwymerwr cyfleustod dan sylw blan, trawslun a disgrifiad o'r gweithfeydd i'w cwblhau.

(2) Rhaid i'r gweithfeydd hynny gael eu cwblhau yn unol â'r cynllun, y trawslun a'r disgrifiad a gyflwynwyd o dan is-baragraff (1) yn unig ac yn unol â'r cyfryw ofynion rhesymol ag a wneir yn unol ag is-baragraff (3) gan yr ymgwymerwr cyfleustod i newid neu fel arall ddiogelu'r cyfarpar, neu i sicrhau mynediad iddo; ac mae gan yr ymgwymerwr cyfleustod yr hawl i wyllo ac archwilio'r gweithfeydd sy'n cael eu cwblhau.

(3) Rhaid i unrhyw ofynion a wneir gan ymgwymerwr cyfleustod o dan is-baragraff (2) gael eu gwneud o fewn cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y cyflwynwyd plan, trawslun a disgrifiad o dan is-baragraff (1) iddo.

(4) Os yw ymgwymerwr cyfleustod, yn unol ag is-baragraff (3) ac o ganlyniad i'r gweithfeydd a gynigir gan yr ymgwymerwr, yn ei gwneud yn ofynnol yn rhesymol dynnu ymaith unrhyw gyfarpar ac yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r ymgwymerwr o'r gofyniad hwnnw, mae paragraffau 1 i 6 yn gymwys fel pe bai'r ymgwymerwr wedi'i gwneud yn ofynnol tynnu ymaith y cyfarpar o dan baragraff 5(2).

(b) so far as it may be reasonable and practicable to do so in the circumstances of the particular case, give effect to the terms and conditions, if any, applicable to the apparatus constructed in or along the authorised project for which the alternative apparatus is to be substituted.

(3) If the facilities and rights to be afforded by the undertaker in respect of any alternative apparatus, and the terms and conditions subject to which those facilities and rights are to be granted, are in the opinion of the arbitrator less favourable on the whole to the utility undertaker in question than the facilities and rights enjoyed by it in respect of the apparatus to be removed and the terms and conditions to which those facilities and rights are subject, the arbitrator must make such provision for the payment of compensation by the undertaker to the utility undertaker as appears to the arbitrator to be reasonable having regard to all the circumstances of the particular case.

7.—(1) Not less than 28 days before starting the execution of any works of the type referred to in paragraph 5(2) that are near to, or will or may affect, any apparatus the removal of which has not been required by the undertaker under that sub-paragraph, the undertaker must submit to the utility undertaker in question a plan, section and description of the works to be executed.

(2) Those works must be executed only in accordance with the plan, section and description submitted under sub-paragraph (1) and in accordance with such reasonable requirements as may be made in accordance with sub-paragraph (3) by the utility undertaker for the alteration or otherwise for the protection of the apparatus, or for securing access to it; and the utility undertaker is entitled to watch and inspect the execution of the works.

(3) Any requirements made by a utility undertaker under sub-paragraph (2) must be made within a period of 21 days beginning with the day on which a plan, section and description under sub-paragraph (1) are submitted to it.

(4) If a utility undertaker, in accordance with sub-paragraph (3) and in consequence of the works proposed by the undertaker, reasonably requires the removal of any apparatus and gives written notice to the undertaker of that requirement, paragraphs 1 to 6 apply as if the removal of the apparatus had been required by the undertaker under paragraph 5(2).

(5) Nid oes dim yn y paragraff hwn yn atal yr ymgwymerwr rhag cyflwyno ar unrhyw adeg neu o bryd i'w gilydd, ond nid mewn unrhyw achos lai na 28 diwrnod cyn dechrau ar unrhyw weithfeydd, blan, trawslun a disgrifiad newydd yn lle'r plan, y trawslun a'r disgrifiad a gyflwynwyd yn flaenorol, ac wedi gwneud hynny mae darpariaethau'r paragraff hwn yn gymwys i'r plan, y trawslun a'r disgrifiad newydd ac mewn cysylltiad â hwy.

(6) Nid yw'n ofynnol i'r ymgwymerwr gydymffurfio ag is-baragraff (1) mewn achos brys, ond yn yr achos hwnnw, rhaid iddo hysbysu'r ymgwymerwr cyfleustod dan sylw cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a rhoi plan, trawslun a disgrifiad o'r gweithfeydd hynny iddo cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a rhaid iddo gydymffurfio ag is-baragraff (2) i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol o dan yr amgylchiadau.

8.—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r paragraff hwn, rhaid i'r ymgwymerwr ad-dalu i ymgwymerwr cyfleustod y treuliau rhesymol y mae'r ymgwymerwr cyfleustod wedi mynd iddynt wrth neu mewn cysylltiad ag—

- (a) archwilio, tynnu ymaith ac ailosod neu adnewyddu, newid neu ddiogelu unrhyw gyfarpar neu adeiladu unrhyw gyfarpar newydd o dan y Rhan hon (gan gynnwys unrhyw gostau yr eir iddynt yn rhesymol neu ddioglediad a delir yn briodol mewn cysylltiad â chaffael hawliau neu arfer pwerau statudol ar gyfer y cyfryw gyfarpar);
- (b) torri unrhyw gyfarpar oddi wrth unrhyw gyfarpar arall, neu wneud unrhyw gyfarpar diangen yn ddiogel, o ganlyniad i arfer unrhyw bŵer gan yr ymgwymerwr o dan y Gorchymyn hwn;
- (c) arolygu unrhyw dir, cyfarpar neu weithfeydd, archwilio, goruchwyllo a monitro gweithfeydd neu osod neu dynnu ymaith unrhyw weithfeydd dros dro sy'n rhesymol angenrheidiol o ganlyniad i arfer unrhyw bŵer gan yr ymgwymerwr o dan y Gorchymyn hwn; a
- (d) unrhyw waith neu beth arall sy'n rhesymol angenrheidiol o ganlyniad i arfer unrhyw gyfryw bŵer gan yr ymgwymerwr,

o fewn cyfnod rhesymol i gael ei hysbysu gan yr ymgwymerwr cyfleustod ei fod wedi mynd i'r cyfryw dreuliau.

(2) Rhaid didynnu o unrhyw swm sy'n daladwy o dan is-baragraff (1) werth unrhyw gyfarpar a dynnwyd ymaith o dan y Rhan hon, y cyfrifir y gwerth hwnnw ar ôl ei dynnu ymaith.

(5) Nothing in this paragraph precludes the undertaker from submitting at any time or from time to time, but in no case less than 28 days before commencing the execution of any works, a new plan, section and description instead of the plan, section and description previously submitted, and having done so the provisions of this paragraph apply to and in respect of the new plan, section and description.

(6) The undertaker is not required to comply with sub-paragraph (1) in a case of emergency, but in that case it must give to the utility undertaker in question notice as soon as is reasonably practicable and a plan, section and description of those works as soon as reasonably practicable subsequently and must comply with sub-paragraph (2) in so far as is reasonably practicable in the circumstances.

8.—(1) Subject to the provisions of this paragraph, the undertaker must repay to a utility undertaker the reasonable expenses incurred by the utility undertaker in, or in connection with—

- (a) the inspection, removal and relaying or replacing, alteration or protection of any apparatus or the construction of any new apparatus under this Part (including any costs reasonably incurred or compensation properly paid in connection with the acquisition of rights or exercise of statutory powers for such apparatus);
- (b) the cutting off of any apparatus from any other apparatus, or the making safe of any redundant apparatus, in consequence of the exercise by the undertaker of any power under this Order;
- (c) the survey of any land, apparatus or works, the inspection, superintendence and monitoring of works or the installation or removal of any temporary works reasonably necessary in consequence of the exercise by the undertaker of any power under this Order; and
- (d) any other work or thing rendered reasonably necessary in consequence of the exercise by the undertaker of any such power,

within a reasonable time of being notified by the utility undertaker that it has incurred such expenses.

(2) There must be deducted from any sum payable under sub-paragraph (1) the value of any apparatus removed under this Part, that value being calculated after removal.

(3) Os yn unol â'r Rhan hon—

- (a) gosodir cyfarpar o fath gwell, o gapasiti ychwanegol neu o ddimensiynau mwy yn lle'r cyfarpar presennol o fath gwaeth, o gapasiti llai neu o ddimensiynau llai; neu
- (b) gosodir cyfarpar (y cyfarpar presennol neu gyfarpar a roddwyd yn lle'r cyfarpar presennol) ar ddyfnder sy'n ddyfnach na'r dyfnder y bu'r cyfarpar presennol, ac na chytunwyd i osod cyfarpar o'r math hwnnw neu'r capasiti hwnnw neu o'r dimensiynau hynny nac i osod cyfarpar ar y dyfnder hwnnw, yn ôl y digwydd, gan yr ymgwymerwr neu, yn niffyg cytundeb, na phenderfynir drwy gymrodeddu yn unol ag erthygl 49 (cymrodeddu) ei bod yn angenrheidiol, yna os oes cost ynghlwm wrth y cyfryw osod wrth adeiladu gweithfeydd o dan y Rhan hon sy'n fwy na'r hyn a fyddai wedi bod ynghlwm pe bai'r cyfarpar a osodwyd wedi bod yn gyfarpar o'r math, y capasiti neu'r dimensiynau presennol, neu ar y dyfnder presennol, yn ôl y digwydd, rhaid i'r swm a fyddai ar wahân i'r is-baragraff hwn yn daladwy i'r ymgwymerwr cyfleustod dan sylw yn rhinwedd is-baragraff (1) gael ei leihau o'r gorswm hwnnw.

(4) At ddibenion is-baragraff (3)—

- (a) nid yw estyn cyfarpar i hyd sy'n fwy na hyd y cyfarpar presennol i'w drin fel pe bai'n gosod cyfarpar o ddimensiynau mwy na rhai'r cyfarpar presennol; a
- (b) phan gytunir ar ddarparu uniad mewn cebl, neu pan benderfynir bod darparu uniad mewn cebl yn angenrheidiol, mae darpariaeth gysylltiedig siambr uno neu dwll archwilio i'w thrin fel pe cytunid arni hefyd neu fel pe penderfynid ami felly.

(5) Rhaid i swm a fyddai ar wahân i'r is-baragraff hwn yn daladwy i ymgwymerwr cyfleustod mewn cysylltiad â gweithfeydd yn rhinwedd is-baragraff (1), os yw'r gweithfeydd yn cynnwys gosod cyfarpar a ddarparwyd yn lle'r cyfarpar a osodwyd fwy na 7 mlynedd a 6 mis yn gynharach roi unrhyw fuddiant ariannol i'r ymgwymerwr cyfleustod sy'n codi drwy ohirio amser adnewyddu'r cyfarpar fel arfer gael ei leihau o swm y buddiant hwnnw.

9.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (3), os achosir unrhyw ddifrod i unrhyw gyfarpar oherwydd neu o ganlyniad i adeiladu unrhyw weithfeydd y cyfeirir atynt ym mharagraff 5(2) (heblaw cyfarpar nad yw'n rhesymol angenrheidiol ei atgyweirio o ystyried y bwriad i'w waredu at ddibenion y gweithfeydd hynny) neu eiddo ymgwymerwr

(3) If in accordance with this Part—

- (a) apparatus of better type, of greater capacity or of greater dimensions is placed in substitution for existing apparatus of worse type, of smaller capacity or of smaller dimensions; or
- (b) apparatus (whether existing apparatus or apparatus substituted for existing apparatus) is placed at a depth greater than the depth at which the existing apparatus was, and the placing of apparatus of that type or capacity or of those dimensions or the placing of apparatus at that depth, as the case may be, is not agreed by the undertaker or, in default of agreement, is not determined by arbitration in accordance with article 49 (arbitration) to be necessary, then, if such placing involves cost in the construction of works under this Part exceeding that which would have been involved if the apparatus placed had been of the existing type, capacity or dimensions, or at the existing depth, as the case may be, the amount which apart from this sub-paragraph would be payable to the utility undertaker in question by virtue of subparagraph (1) must be reduced by the amount of that excess.

(4) For the purposes of sub-paragraph (3)—

- (a) an extension of apparatus to a length greater than the length of existing apparatus is not to be treated as a placing of apparatus of greater dimensions than those of the existing apparatus; and
- (b) where the provision of a joint in a cable is agreed, or is determined to be necessary, the consequential provision of a jointing chamber or of a manhole is to be treated as if it also had been agreed or had been so determined.

(5) An amount which apart from this sub-paragraph would be payable to a utility undertaker in respect of works by virtue of sub-paragraph (1) must, if the works include the placing of apparatus provided in substitution for apparatus placed more than 7 years and 6 months earlier so as to confer on the utility undertaker any financial benefit by deferment of the time for renewal of the apparatus in the ordinary course, be reduced by the amount that represents that benefit.

9.—(1) Subject to sub-paragraphs (2) and (3), if by reason or in consequence of the construction of any works referred to in paragraph 5(2) any damage is caused to any apparatus (other than apparatus the repair of which is not reasonably necessary in view of its intended removal for the purposes of those works) or

cyfleustod, neu oes unrhyw darfu ar unrhyw wasanaeth a ddarperir gan yr ymgwymerwr cyfleustod, rhaid i'r ymgwymerwr—

- (a) dwyn a thalu'r gost y mae'r ymgwymerwr cyfleustod yn rhesymol yn mynd iddi wrth unioni'r cyfryw ddifrod neu wrth adfer y cyflenwad; a
- (b) rhoi digollediad rhesymol i'r ymgwymerwr cyfleustod am unrhyw dreuliau, colled, iawndal, cosb neu gostau eraill y mae'r ymgwymerwr cyfleustod yn mynd iddynt, oherwydd neu o ganlyniad i unrhyw gyfryw ddifrod neu darfu.

(2) Nid oes dim yn is-baragraff (1) yn gosod unrhyw atebolrwydd ar yr ymgwymerwr mewn cysylltiad ag unrhyw ddifrod neu darfu i'r graddau y gellir ei briodoli i weithred, esgeulustod neu ddiffyg ymgwymerwr cyfleustod, ei swyddogion, ei weision, ei gontractwyr neu ei asiantau.

(3) Rhaid i ymgwymerwr cyfleustod roi rhybudd rhesymol i'r ymgwymerwr am unrhyw hawliad neu archeb am dâl ac ni chaniateir gwneud unrhyw setliad na chyfaddawd heb gydsyniad yr ymgwymerwr y mae'n rhaid iddo, os yw'n atal y cyfryw gydsyniad, gynnal ar ei ben ei hun unrhyw setliad neu gyfaddawd neu unrhyw achos llys sy'n angenrheidiol i wrthsefyll yr hawliad neu'r archeb am dâl.

10. Nid oes dim yn y Rhan hon yn effeithio ar ddarpariaethau unrhyw ddeddfiad neu gytundeb sy'n rheoleiddio'r cydberthnasau rhwng yr ymgwymerwr a'r ymgwymerwr cyfleustod mewn cysylltiad ag unrhyw gyfarpar sydd wedi ei osod neu wedi ei godi mewn tir sy'n eiddo i'r ymgwymerwr ar y dyddiad y gwneir y Gorchymyn hwn.

RHAN 2

Diogelu Network Rail Infrastructure Limited

11. Mae darpariaethau'r Rhan hon yn cael effaith oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig rhwng yr ymgwymerwr a Network Rail a, phan fo paragraff 15 yn gymwys, unrhyw berson arall y rhoddir hawliau neu rwymedigaethau iddo gan y paragraff hwnnw.

12. Yn y Rhan hon—

mae “adeiladu” yn cynnwys cwblhau, gosod, newid ac ailadeiladu ac mae i “adeiladu” ac “wedi ei adeiladu” ystyron cyfatebol;

ystyr “peiriannydd” yw peiriannydd a benodir gan Network Rail at ddibenion y Gorchymyn hwn;

ystyr “trwydded rhwydwaith” yw'r drwydded rhwydwaith, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, a roddwyd i Network Rail gan yr Ysgrifennydd

property of a utility undertaker, or there is any interruption in any service provided by the utility undertaker, the undertaker must—

- (a) bear and pay the cost reasonably incurred by the utility undertaker in making good such damage or restoring the supply; and
- (b) make reasonable compensation to the utility undertaker for any other expenses, loss, damages, penalty or costs incurred by the utility undertaker, by reason or in consequence of any such damage or interruption.

(2) Nothing in sub-paragraph (1) imposes any liability on the undertaker with respect to any damage or interruption to the extent that it is attributable to the act, neglect or default of a utility undertaker, its officers, servants, contractors or agents.

(3) A utility undertaker must give the undertaker reasonable notice of any claim or demand and no settlement or compromise must be made without the consent of the undertaker which, if it withholds such consent, must have the sole conduct of any settlement or compromise or of any proceedings necessary to resist the claim or demand.

10. Nothing in this Part affects the provisions of any enactment or agreement regulating the relations between the undertaker and a utility undertaker in respect of any apparatus laid or erected in land belonging to the undertaker at the date on which this Order is made.

PART 2

Protection of Network Rail Infrastructure Limited

11. The provisions of this Part have effect unless otherwise agreed in writing between the undertaker and Network Rail and, where paragraph 15 applies, any other person on whom rights or obligations are conferred by that paragraph.

12. In this Part—

“construction” includes execution, placing, alteration and reconstruction and “construct” and “constructed” have corresponding meanings;

“engineer” means an engineer appointed by Network Rail for the purposes of this Order;

“network licence” means the network licence, as the same is amended from time to time, granted to Network Rail by the Secretary of State in exercise

Gwladol drwy arfer pwerau o dan adran 8 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993(1);

ystyr “Network Rail” yw Network Rail Infrastructure Limited ac unrhyw gwmni cysylltiedig i Network Rail Infrastructure Limited sy'n dal eiddo at ddibenion rheilffordd, ac at ddiben y diffiniad hwn ystyr “cwmni cysylltiedig” yw unrhyw gwmni sydd (o fewn ystyr adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006(2)) sy'n gwmni daliannol Network Rail Infrastructure Limited, sy'n is-gwmni i Network Rail Infrastructure Limited neu sy'n is-gwmni arall i gwmni daliannol Network Rail Infrastructure Limited;

mae “planiau” yn cynnwys trawsluniau, dyluniadau, data dylunio, meddalwedd, lluniadau, rhagofynion, adroddiadau ar bridd, cyfrifiadau, disgrifiadau (gan gynnwys disgrifiadau o ddulliau adeiladu), cynigion fesul cam, rhaglenni a manylion y graddau y bwriedir meddiannu eiddo rheilffordd ac amseriad a hyd hynny;

ystyr “gweithdrefnau gweithredol rheilffyrdd” yw gweithdrefnau a bennir o dan unrhyw gytundeb ynglŷn â mynediad (fel y'i diffiniwyd yn Neddf Rheilffyrdd 1993(3)) neu brydles gorsaf;

ystyr “eiddo rheilffordd” yw unrhyw reilffordd sy'n eiddo i Network Rail ac—

- (a) unrhyw orsaf, tir, gweithfeydd, cyfarpar ac offer sy'n eiddo i Network Rail neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw gyfryw reilffordd; a
- (b) unrhyw hawddfaint neu fuddiant arall mewn eiddo a ddelir neu a ddefnyddir gan Network Rail at ddibenion y cyfryw reilffordd neu weithfeydd, cyfarpar neu offer;

ystyr “gwaith penodedig” yw cymaint o unrhyw un o'r gweithfeydd ar y tir ag sydd wedi'i leoli ar, ar draws, o dan, dros neu o fewn 15 metr i eiddo rheilffordd, neu a all effeithio ar eiddo rheilffordd mewn unrhyw ffordd.

13.—(1) Pan fo'n ofynnol o dan y Rhan hon i Network Rail roi ei gydsyniad neu ei gymeradwyaeth mewn cysylltiad ag unrhyw fater, mae'r cydsyniad hwnnw neu'r gymeradwyaeth honno yn ddarostyngedig i'r amod bod Network Rail yn cydymffurfio ag unrhyw weithdrefnau gweithredol perthnasol rheilffordd, ac unrhyw rwymedigaethau o dan ei drwydded rhwydwaith neu o dan statud.

of powers under section 8 of the Railways Act 1993(1);

“Network Rail” means Network Rail Infrastructure Limited and any associated company of Network Rail Infrastructure Limited that holds property for railway purposes, and for the purpose of this definition “associated company” means any company that is (within the meaning of section 1159 of the Companies Act 2006(2)) the holding company of Network Rail Infrastructure Limited, a subsidiary of Network Rail Infrastructure Limited or another subsidiary of the holding company of Network Rail Infrastructure Limited;

“plans” includes sections, designs, design data, software, drawings, specifications, soil reports, calculations, descriptions (including descriptions of methods of construction), staging proposals, programmes and details of the extent, timing and duration of any proposed occupation of railway property;

“railway operational procedures” means procedures specified under any access agreement (as defined in the Railways Act 1993(3)) or station lease;

“railway property” means any railway belonging to Network Rail and—

- (a) any station, land, works, apparatus and equipment belonging to Network Rail or connected with any such railway; and
- (b) any easement or other property interest held or used by Network Rail for the purposes of such railway or works, apparatus or equipment;

“specified work” means so much of any of the onshore works as is situated on, across, under, over or within 15 metres of, or may in any way affect, railway property.

13.—(1) Where under this Part Network Rail is required to give its consent or approval in respect of any matter, that consent or approval is subject to the condition that Network Rail complies with any relevant railway operational procedures, and any obligations under its network licence or under statute.

(1) 1993 p. 43. Diwygiwyd adran 8 gan baragraff 4 o Atodlen 17 a Rhan 4 o Atodlen 31 i Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38), paragraffau 3 a 5 o Atodlen 2 i Ddeddf Rheilffyrdd a Diogelwch Trafnidiaeth 2003 (p. 20) a pharagraff 3 o Atodlen 1 a Rhan 1 o Atodlen 13 i Ddeddf Rheilffyrdd 2005 (p. 14).

(2) 2006 p. 46.

(3) Diffinnir “cytundeb ynglŷn â mynediad” yn adran 83.

(1) 1993 c. 43. Section 8 was amended by paragraph 4 of Schedule 17 and Part 4 of Schedule 31 to the Transport Act 2000 (c. 38), paragraphs 3 and 5 of Schedule 2 to the Railways and Transport Safety Act 2003 (c. 20) and paragraph 3 of Schedule 1 and Part 1 of Schedule 13 to the Railways Act 2005 (c. 14).

(2) 2006 c. 46.

(3) “Access agreement” is defined in section 83.

(2) I'r graddau y mae unrhyw waith penodedig neu gaffael neu ddefnyddio eiddo rheilffordd yn ddarostyngedig neu y gall fod yn ddarostyngedig i weithdrefnau gweithredol rheilffordd, rhaid i Network Rail—

- (a) cydweithredu â'r ymgwymerwr gyda'r nod o osgoi oedi amhriodol a sicrhau cydymffurfiaeth rhwng unrhyw blaniau a gymeradwyir gan y peiriannydd a gofynion sy'n deillio o'r gweithdrefnau hynny; a
- (b) defnyddio ei ymdrechion rhesymol i osgoi unrhyw wrthdaro sy'n codi rhwng cymhwyso'r gweithdrefnau hynny a gweithredu'r prosiect awdurdodedig yn briodol yn unol â'r Gorchymyn hwn.

14.—(1) Ni chaniateir i'r ymgwymerwr arfer y pwerau a roddir gan

- (a) erthygl 12 (*gollwng dŵr*);
- (b) erthygl 14 (*pŵer i arolygu ac ymchwilio i dir*);
- (c) erthygl 22 (*pŵer i gaffael tir*);
- (d) erthygl 23 (*pŵer i gaffael hawliau a gosod cyfamodau cyfyngol*);
- (e) erthygl 26 (*pŵer i gaffael is-bridd yn unig*);
- (f) erthygl 28 (*defnyddio tir dros dro ar gyfer adeiladu gweithfeydd*);
- (g) erthygl 29 (*defnyddio tir dros dro ar gyfer cynnal a chadw gweithfeydd*);
- (h) erthygl 34 (*pŵer i drechu hawddfrentiau a hawliau eraill*);
- (i) erthygl 35 (*hawliau preifat dros dir*);
- (j) erthygl 40 (*pŵer i docio coed sy'n gorhongian dros y gweithfeydd awdurdodedig a gwaredu gwrychoedd*);
- (k) erthygl 44 ac Atodlen 10 i'r Gorchymyn (*ymgymerwyr statudol*); neu
- (l) y pwerau a roddwyd gan adran 11(3) o Ddeddf 1965,

mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo rheilffordd oni bai bod y cyfryw bwerau yn cael eu harfer gyda chydysniad Network Rail.

(2) Ni chaniateir i'r ymgwymerwr drwy arfer y pwerau a roddir gan y Gorchymyn hwn atal mynediad i unrhyw eiddo rheilffordd i gerddwyr na cherbydau, onid atelir y cyfryw fynediad gyda chydysniad Network Rail.

(3) Ni chaniateir i'r ymgwymerwr arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 271 neu 272 o Ddeddf 1990, nac Atodlen 10 i'r Gorchymyn hwn, mewn perthynas ag unrhyw hawl mynediad sydd gan Network Rail i eiddo rheilffordd ond caniateir dargyfeirio'r cyfryw hawliau mynediad gyda chydysniad Network Rail.

(2) In so far as any specified work or the acquisition or use of railway property is or may be subject to railway operational procedures, Network Rail must—

- (a) co-operate with the undertaker with a view to avoiding undue delay and securing conformity as between any plans approved by the engineer and requirements emanating from those procedures; and
- (b) use its reasonable endeavours to avoid any conflict arising between the application of those procedures and the proper implementation of the authorised project pursuant to this Order.

14.—(1) The undertaker must not exercise the powers conferred by—

- (a) article 12 (*discharge of water*);
- (b) article 14 (*power to survey and investigate land*);
- (c) article 22 (*power to acquire land*);
- (d) article 23 (*power to acquire rights and impose restrictive covenants*);
- (e) article 26 (*power to acquire subsoil only*);
- (f) article 28 (*temporary use of land for construction of works*);
- (g) article 29 (*temporary use of land for maintenance of works*);
- (h) article 34 (*power to override easements and other rights*);
- (i) article 35 (*private rights over land*);
- (j) article 40 (*power to lop trees overhanging the authorised works and removal of hedgerows*);
- (k) article 44 and Schedule 10 to the Order (*statutory undertakers*); or
- (l) the powers conferred by section 11(3) of the 1965 Act,

in respect of any railway property unless the exercise of such powers is with the consent of Network Rail.

(2) The undertaker must not in the exercise of the powers conferred by this Order prevent pedestrian or vehicular access to any railway property, unless preventing such access is with the consent of Network Rail.

(3) The undertaker must not exercise the powers conferred by sections 271 or 272 of the 1990 Act, or Schedule 10 to this Order, in relation to any right of access of Network Rail to railway property, but such right of access may be diverted with the consent of Network Rail.

(4) Ni chaniateir i'r ymgwymerwr o dan bwerau'r Gorchymyn hwn gaffael neu ddefnyddio neu gaffael hawliau newydd, na cheisio gosod unrhyw gyfamodau cyfyngol, dros unrhyw eiddo rheilffordd, na diddymu unrhyw hawliau presennol sydd gan Network Rail mewn cysylltiad ag eiddo unrhyw drydydd parti, ac eithrio gyda chydysyniad Network Rail.

(5) Pan ofynnir i Network Rail roi ei gydsyniad yn unol â'r paragraff hwn, ni chaniateir iddo atal y cyfryw ganiatâd yn afresymol ond caiff ei roi yn ddarostyngedig i amodau rhesymol.

15.—(1) Rhaid i'r ymgwymerwr cyn cychwyn ar adeiladu unrhyw waith penodedig ddarparu planiau priodol a digonol o'r gwaith hwnnw i Network Rail ar gyfer cymeradwyaeth resymol y peiriannydd ac ni chaniateir cychwyn ar y gwaith penodedig ac eithrio yn unol â'r cyfryw blaniau ag a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan y peiriannydd neu ag a setlwyd drwy gymrodeddu.

(2) Ni chaniateir i'r peiriannydd o dan is-baragraff (1) atal cymeradwyaeth nac oedi cyn rhoi cymeradwyaeth yn afresymol, ac os nad yw'r peiriannydd, erbyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y darparwyd y cyfryw blaniau i Network Rail, wedi mynegi ei fod yn anghymeradwyo'r planiau hynny nac wedi nodi'r seiliau dros eu hanghymeradwyo, caiff yr ymgwymerwr gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r peiriannydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo fynegi cymeradwyaeth neu anghymeradwyaeth o fewn cyfnod pellach o 28 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r peiriannydd yn cael hysbysiad ysgrifenedig gan yr ymgwymerwr. Os nad yw'r peiriannydd wedi mynegi cymeradwyaeth nac anghymeradwyaeth erbyn diwedd y cyfnod pellach o 28 diwrnod, bernir bod y peiriannydd wedi cymeradwyo'r planiau fel y'u cyflwynwyd.

(3) Os yw Network Rail, erbyn diwedd 28 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y cyflwynwyd hysbysiad ysgrifenedig i'r peiriannydd o dan is-baragraff (2), yn hysbysu'r ymgwymerwr bod Network Rail ei hun yn dymuno adeiladu unrhyw ran o waith penodedig a fydd neu a all, ym marn y peiriannydd, effeithio ar sefydlogrwydd eiddo rheilffordd neu weithrediad diogel traffig ar reilffyrdd Network Rail yna, os yw'r ymgwymerwr yn dymuno bod y cyfryw ran o'r gwaith penododig yn cael ei hadeiladu, rhaid i Network Rail ei hadeiladu mor gyflym ag y bo'n rhesymol bosibl ar ran yr ymgwymerwr ac er boddhad rhesymol yr ymgwymerwr yn unol â'r planiau a gymeradwywyd neu y bernir eu bod wedi cael eu cymeradwyo neu eu setlo o dan y paragraff hwn ac o dan oruchwyliaeth (pan fo'n briodol ac os y'i rhoddir) yr ymgwymerwr.

(4) The undertaker must not under the powers of this Order acquire or use or acquire new rights over, or seek to impose any restrictive covenants over, any railway property, or extinguish any existing rights of Network Rail in respect of any third party property, except with the consent of Network Rail.

(5) Where Network Rail is asked to give its consent pursuant to this paragraph, such consent must not be unreasonably withheld but may be given subject to reasonable conditions.

15.—(1) The undertaker must before commencing construction of any specified work supply to Network Rail proper and sufficient plans of that work for the reasonable approval of the engineer and the specified work must not be commenced except in accordance with such plans as have been approved in writing by the engineer or settled by arbitration.

(2) The approval of the engineer under sub-paragraph (1) must not be unreasonably withheld or delayed, and if by the end of the period of 28 days beginning with the day on which such plans have been supplied to Network Rail the engineer has not intimated disapproval of those plans and the grounds of disapproval, the undertaker may serve on the engineer written notice requiring the engineer to intimate approval or disapproval within a further period of 28 days beginning with the day on which the engineer receives written notice from the undertaker. If by the expiry of the further period of 28 days the engineer has not intimated approval or disapproval, the engineer is deemed to have approved the plans as submitted.

(3) If by the expiry of 28 days beginning with the day on which written notice was served on the engineer under sub-paragraph (2), Network Rail gives notice to the undertaker that Network Rail desires itself to construct any part of a specified work that in the opinion of the engineer will or may affect the stability of railway property or the safe operation of traffic on the railways of Network Rail then, if the undertaker desires such part of the specified work to be constructed, Network Rail must construct it with all reasonable dispatch on behalf of and to the reasonable satisfaction of the undertaker in accordance with the plans approved or deemed to be approved or settled under this paragraph and under the supervision (where appropriate and if given) of the undertaker.

(4) Wrth fynegi ei gymeradwyaeth o'r planiau, caiff y peiriannydd bennu unrhyw weithfeydd diogelu (boed yn rhai dros dro neu barhaol) a ddylai, ym marn y peiriannydd, gael eu cyflawni cyn cychwyn ar adeiladu gwaith penodedig er mwyn sicrhau diogelwch neu sefydlogrwydd eiddo rheilffordd neu barhad gweithrediad diogel ac effeithlon rheilffyrdd Network Rail neu wasanaethau gweithredwyr sy'n eu defnyddio (gan gynnwys adleoli, datgomisiynu a gwaredu unrhyw weithfeydd, cyfarpar ac offer sy'n angenrheidiol oherwydd gwaith penodedig ac er cysur a diogelwch teithwyr y gall y gweithfeydd penodedig effeithio arnynt), a rhaid i'r cyfryw weithfeydd diogelu ag y bo'n rhesymol angenrheidiol at y dibenion hynny gael eu hadeiladu gan Network Rail neu gan yr ymgymwr, os dymuna Network Rail felly, a rhaid i'r cyfryw weithfeydd diogelu gael eu cyflawni ar draul yr ymgymwr, yn y naill achos neu'r llall mor gyflym ag y bo'n rhesymol bosibl, a rhaid i'r ymgymwr beidio â chychwyn ar adeiladu'r gweithfeydd penodedig nes bod y peiriannydd wedi hysbysu'r ymgymwr bod y gweithfeydd diogelu wedi cael eu cwblhau er boddhad rhesymol y peiriannydd.

16.—(1) Rhaid i unrhyw weithfeydd penodedig ac unrhyw weithfeydd diogelu sydd i'w hadeiladu yn rhinwedd paragraff 15(4), pan gychwynir arnynt, gael eu hadeiladu—

- (a) mor gyflym ag y bo'n rhesymol bosibl yn unol â'r planiau a gymeradwywyd neu y barnwyd eu bod wedi cael eu cymeradwyo neu eu setlo o dan baragraff 5;
- (b) o dan oruchwyliaeth (pan fo'n briodol ac os y'i rhoddir) y peiriannydd ac er boddhad rhesymol y peiriannydd;
- (c) yn y cyfryw fodd ag sy'n achosi cyn lleied o ddifrod ag y bo'n bosibl i eiddo rheilffordd;
- (d) i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, fel nad ydynt yn ymyrryd â defnydd rhydd, didor a diogel o unrhyw un o reilffyrdd Network Rail na'r traffig arnynt a'r defnydd o eiddo rheilffordd gan deithwyr nac yn eu rhwystro.

(2) Os achosir unrhyw ddifrod i eiddo rheilffordd neu os achosir unrhyw ymyriad neu rwystr oherwydd adeiladu gwaith penodedig neu o ganlyniad i adeiladu gwaith penodedig, rhaid i'r ymgymwr, er gwaethaf unrhyw gyfryw gymeradwyaeth, unioni'r cyfryw ddifrod a rhaid iddo dalu pob traul resymol i Network Rail y gall Network Rail fynd iddi a digollediad am unrhyw golled a achosir i Network Rail drwy unrhyw gyfryw ddifrod, ymyriad neu rwystr

(4) When signifying approval of the plans, the engineer may specify any protective works (whether temporary or permanent) that in the engineer's opinion should be carried out before commencement of construction of a specified work to ensure the safety or stability of railway property or the continuation of safe and efficient operation of the railways of Network Rail or the services of operators using the same (including any relocation, decommissioning and removal of works, apparatus and equipment necessitated by a specified work and the comfort and safety of passengers who may be affected by the specified works), and such protective works as may be reasonably necessary for those purposes must be constructed by Network Rail or by the undertaker, if Network Rail so desires, and such protective works must be carried out at the expense of the undertaker, in either case with all reasonable dispatch, and the undertaker must not commence the construction of the specified works until the engineer has notified the undertaker that the protective works have been completed to the engineer's reasonable satisfaction.

16.—(1) Any specified work and any protective works to be constructed by virtue of paragraph 15(4) must, when commenced, be constructed—

- (a) with all reasonable dispatch in accordance with the plans approved or deemed to have been approved or settled under paragraph 5;
- (b) under the supervision (where appropriate and if given) and to the reasonable satisfaction of the engineer;
- (c) in such manner as to cause as little damage as is possible to railway property;
- (d) so far as is reasonably practicable, so as not to interfere with or obstruct the free, uninterrupted and safe use of any railway of Network Rail or the traffic on it and the use by passengers of railway property.

(2) If any damage to railway property or any such interference or obstruction is caused by the carrying out of, or in consequence of, the construction of a specified work, the undertaker must, notwithstanding any such approval, make good such damage and must pay to Network Rail all reasonable expenses to which Network Rail may be put and compensation for any loss that it may sustain by reason of any such damage, interference or obstruction.

(3) Nid oes dim yn y Rhan hon yn gosod unrhyw atebolrwydd ar yr ymgwymerwr o ran—

- (a) unrhyw ddifrod, costau, treuliau neu golled y gellir ei briodoli neu ei phriodoli i esgeuluster Network Rail neu ei weision, ei gontractwyr neu ei asiantau; neu
- (b) unrhyw atebolrwydd ar Network Rail o ran unrhyw ddifrod, costau, treuliau neu golled y gellir ei briodoli neu ei phriodoli i esgeuluster yr ymgwymerwr neu ei weision, ei gontractwr neu ei asiantau.

17. Rhaid i'r ymgwymerwr—

- (a) ar bob adeg ddarparu cyfleusterau rhesymol i'r peiriannydd gael mynediad i waith penodedig wrth iddo gael ei adeiladu; a
- (b) darparu'r holl gyfryw wybodaeth i'r peiriannydd ag y caiff y peiriannydd yn rhesymol ofyn amdani o ran gwaith penodedig neu'r dull o'i adeiladu.

